



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2009 Rhif 3293 (Cy.290)

**TRAFNIDIAETH
GYHOEDDUS I DEITHWYR,
CYMRU**

Rheoliadau Cynlluniau
Partneriaethau Ansawdd (Cymru)
2009

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cynlluniau partneriaeth ansawdd sy'n cynnwys gofynion o ran amlderau, amseriadau a phrisiau teithio uchaf. Cynllun partneriaeth ansawdd yw cynllun a wneir gan awdurdod trafndiaeth lleol, neu ddau neu ragor o awdurdodau trafndiaeth lleol, lle mae'r awdurdodau yn darparu cyfleusterau penodol ar y llwybrau a ddefnyddir gan wasanaethau bysiau lleol, tra bo gweithredwyr gwasanaethau bysiau sy'n dymuno defnyddio'r cyfleusterau hynny yn cytuno i ddarparu gwasanaethau o safon benodol. Gwneir y cynlluniau partneriaethau lleol o dan Ran 2 o Ddeddf Trafndiaeth 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Trafndiaeth Leol 2008.

Mae *Rhan 1* o'r rheoliadau yn gwneud darpariaethau cyffredinol. Mae *rheoliad 3* yn pennu bod rhaid, mewn cynllun a wneir gan ddau neu ragor o awdurdodau, dynodi un o'r awdurdodau hynny yn awdurdod arweiniol ar ddibenion y Rheoliadau hyn. Yn y rheoliad hwn hefyd, gosodir dyletswyddau ar awdurdod arweiniol i ymgynghori, a phan fo'n briodol, i weithredu yn unol â sylwadau'r awdurdodau eraill sy'n gwneud y cynllun ar y cyd ag ef. O dan *reoliad 4* pan weithredir gwasanaeth bysiau lleol gyda chymhorthdal gan yr awdurdod, a phan fo cytundeb cymhorthdal yn pennu bod y gwasanaeth i'w ddarparu yn unol â safon y bwriedir ei phennu mewn cynllun, ni chaiff y gweithredwyr wrthwynebu cynnwys y safon honno yn y cynllun.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 No. 3293 (W.290)

**PUBLIC PASSENGER
TRANSPORT,
WALES**

The Quality Partnership Schemes
(Wales) Regulations
2009

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make provision about quality partnership schemes which include requirements as to frequencies, timings and maximum fares. A quality partnership scheme is a scheme made by a local transport authority, or two or more local transport authorities, under which the authorities provide particular facilities at specific locations along the routes used by local bus services, and operators of local services who wish to use those facilities agree to provide services of a particular standard. Quality partnership schemes are made under Part 2 of the Transport Act 2000, as amended by the Local Transport Act 2008.

Part 1 of the Regulations sets out general provisions. *Regulation 3* specifies that, where a scheme is to be made jointly by two or more authorities, one of those authorities must be identified as the lead authority for the purposes of these Regulations. This regulation also imposes obligations on a lead authority to consult and, where appropriate, act in accordance with the representations of the other authorities with whom the scheme is made. *Regulation 4* specifies that where a local bus service is operated under subsidy from the authority, and the effect of the subsidy agreement is that the service is provided to a standard proposed to be specified in a scheme, operators cannot object to the inclusion of that standard in the scheme.

Mae *Rhan 2* o'r rheoliadau yn diffinio, at ddibenion adrannau 114(6B) a 122(3)(c) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, y termau "gwrthwynebiad derbyniadwy" a "gweithredwr perthnasol". Mae'n rhagnodi hefyd y weithdrefn sydd i'w dilyn gan weithredwr sy'n dymuno gwrthwynebu cynnwys gofynion o ran amlderau, amseriadau neu'r prisiau teithio uchaf mewn cynllun. Er mwyn bod yn dderbyniadwy, rhaid i wrthwynebiad gael ei gyflwyno gan weithredwr perthnasol yn unol â'r weithdrefn ragnodedig, a rhai'r i'r gwrthwynebiad fodloni'r naill neu'r llall neu'r ddwy o'r seiliau a bennir yn *rheoliad 7(3)*. Y seiliau yw naill ai na fyddai'n ymarferol, neu na fyddai'n fasnachol hyfyw, i ddarparu'r ddarparu gwasanaethau o'r safon benodedig. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r awdurdod arweiniol i'w benderfynu, ac os yw'r gwrthwynebydd yn anfodlon ar y penderfyniad hwnnw, gellir atgyfeirio'r mater i'w benderfynu gan y comisiynydd traffig.

Mae *Rhan 3* o'r rheoliadau yn pennu'r weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn ar gyfer adolygu amlderau, amseriadau a'r prisiau teithio uchaf. Os yw cynllun yn pennu gofynion o ran y prisiau teithio uchaf, rhaid adolygu'r prisiau hynny bob 12 mis o leiaf. Ni phennir unrhyw gyfnod hwyaf rhwng adolygiadau o'r gofynion o ran amlderau ac amseriadau, a mater i'r awdurdodau yw penderfynu pa bryd y dylid cynnal yr adolygiadau hynny. Yn gyffredinol, os oes nifer penodedig o weithredwyr yn gofyn am adolygiad o'r gofynion sy'n gymwys iddynt hwy, mae dyletswydd ar yr awdurdod i gynnal adolygiad o'r fath. Nid yw'r ddyletswydd honno'n gymwys os aeth llai na 12 mis heibio er pan gynhaliwyd yr adolygiad blaenorol o'r gofynion hynny, oni ddigwyddodd newid yn amodau'r farchnad sydd wedi effeithio'n sylweddol ar allu'r gweithredwr i sicrhau cyfradd enillion briodol am weithredu'r gwasanaethau presennol. Ar ôl cynnal adolygiad, caiff gweithredwyr wrthwynebu canlyniad yr adolygiad hwnnw drwy ddilyn y gweithdrefnau yn *Rhan 2* o'r Rheoliadau hyn.

Mae asesiad effaith wedi ei baratoi, a gellir cael copïau ohono gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. Mae'r asesiad wedi ei atodi i'r Memorandwm Esboniadol, sydd ar gael ynghyd â'r offeryn ar wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (www.opsi.gov.uk).

Part 2 of the Regulations defines, for the purposes of sections 114(6B) and 122(3)(c) of the Transport Act 2000, the terms "admissible objection" and "relevant operator". It also prescribes the procedure to be followed by an operator who wishes to object to the inclusion of requirements as to frequencies, timings or maximum fares in a scheme. To be admissible an objection must be submitted by a relevant operator in accordance with the prescribed procedure, and must satisfy either or both of the grounds specified in *regulation 7(3)*. These are that it would either not be practicable, or it would not be commercially viable, for an operator to provide services to the standard specified. An objection must be submitted to the lead authority for a decision and, if the objector is unhappy with that decision, the matter may be referred to the traffic commissioner for a determination.

Part 3 of the Regulations prescribes the procedure under which requirements as to frequencies, timings and maximum fares may be reviewed. Where a scheme sets requirements as to maximum fares, these must be reviewed at least every 12 months. No maximum period between reviews is prescribed for requirements as to frequencies and timings and it is for authorities to decide when they should take place. Where a prescribed number of operators request a review of the requirements which apply to them, the authority is generally under an obligation to carry out such a review. This obligation does not apply where it is less than 12 months since the previous review of those requirements, unless there has been a change in market conditions which materially affects the ability of the operator to secure an appropriate rate of return from operating the existing services. Following a review, operators may object to the outcome of that review, following the procedures in *Part 2* of these Regulations.

An impact assessment has been prepared and copies can be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ. The assessment is annexed to the Explanatory Memorandum which can be found alongside the instrument on the Office of Public Sector Information website (www.opsi.gov.uk).

2009 Rhif 3293 (Cy.290)

2009 No. 3293 (W.290)

**TRAFNIDIAETH
GYHOEDDUS I DEITHWYR,
CYMRU**

**PUBLIC PASSENGER
TRANSPORT,
WALES**

**Rheoliadau Cynlluniau
Partneriaethau Ansawdd (Cymru)
2009**

**The Quality Partnership Schemes
(Wales) Regulations
2009**

Gwnaed 14 Rhagfyr 2009

Made 14 December 2009

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 15 Rhagfyr 2009

*Laid before the National
Assembly for Wales* 15 December 2009

Yn dod i rym 1 Chwefror 2010

Coming into force 1 February 2010

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

CYFFREDINOL

GENERAL

1. Enwi, cychwyn, dirymu a chymhwyso
2. Dehongli
3. Dynodi awdurdod arweiniol
4. Gwasanaethau sydd i'w heithrio rhag cymhwyso adran 114(6B) o'r Ddeddf

1. Citation, commencement, revocation and application
2. Interpretation
3. Identification of lead authority
4. Services to be excluded from the application of section 114(6B) of the Act

RHAN 2

PART 2

**PENDERFYNU YNGHYLCH GWEITHREDWR
PERTHNASOL A GWRTHWYNEBIAD
DERBYNIADWY**

**DETERMINATION OF RELEVANT OPERATOR
AND ADMISSIBLE OBJECTION**

5. Diffinio "gweithredwr perthnasol"
6. Diffinio "gweithredwr perthnasol" yn dilyn addasu cynllun arfaethedig
7. Diffinio "gwrthwynebiad derbyniadwy"
8. Gweithdrefn ar gyfer gwrthwynebu
9. Cais gan awdurdod arweiniol am ragor o wybodaeth
10. Penderfyniad yr awdurdod arweiniol
11. Atgyfeirio at y comisiynydd traffig
12. Darparu gwybodaeth i'r comisiynydd traffig

5. Definition of "relevant operator"
6. Definition of "relevant operator" following modification of proposed scheme
7. Definition of "admissible objection"
8. Procedure for making an objection
9. Request for further information by lead authority
10. Decision of lead authority
11. Referral to the traffic commissioner
12. Provision of information to traffic commissioner

13. Aseswyr i gynorthwyo comisiynwyr traffig
14. Penderfyniad y comisiynydd traffig
15. Estyniad amser

13. Assessors to assist traffic commissioners
14. Determination of the traffic commissioner
15. Extension of time

RHAN 3

PART 3

ADOLYGU GOFYNIION O RAN AMLDERAU, AMSERIADAU NEU BRISIAU TEITHIO UCHAF

REVIEW OF REQUIREMENTS AS TO FREQUENCIES, TIMINGS OR MAXIMUM FARES

16. Dehongli Rhan 3
17. Adolygu gofynion o ran prisiau teithio uchaf gan yr awdurdod arweiniol
18. Methiant awdurdod arweiniol i adolygu gofynion o ran prisiau teithio uchaf
19. Cais gan weithredwr am adolygu gofynion o ran prisiau teithio uchaf
20. Adolygu fformiwla ar gyfer amrywio prisiau teithio uchaf, gan yr awdurdod arweiniol
21. Cais gan weithredwyr am adolygu fformiwla ar gyfer amrywio prisiau teithio uchaf
22. Adolygu gofynion o ran amlderau ac amseriadau, gan yr awdurdod arweiniol
23. Cais gan weithredwr am adolygu gofynion o ran amlderau ac amseriadau
24. Gweithdrefn ar gyfer adolygiadau
25. Gwrthwynebu canlyniad adolygiad

16. Interpretation of Part 3
17. Review of requirements as to maximum fares by lead authority
18. Failure of lead authority to review requirements as to maximum fares
19. Request for review of requirements as to maximum fares by operator
20. Review of formula for varying maximum fares by lead authority
21. Request for review of formula varying maximum fares by operators
22. Review of requirements as to frequencies or timings by lead authority
23. Request for review of requirements as to frequencies and timings by operator
24. Procedure for reviews
25. Objections to the outcome of a review

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 119, 122 a 160(1) (a) (b) ac (c) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 119, 122 and 160(1) (a) (b) and (c) of the Transport Act 2000(1) and now vested in them.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn unol â pharagraff 24 o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007(2).

The Welsh Ministers have consulted the Administrative Justice and Tribunals Council in accordance with paragraph 24 of Schedule 7 to the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007(2).

(1) 2000 p.38. Diwygiwyd adran 122 gan adran 18 o Ddeddf Trafnidiaeth Leol 2008 (p. 26). Mae'r pŵer i wneud Rheoliadau o dan adran 122 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 wedi ei roi i'r "awdurdod cenedlaethol priodol", fel y'i diffinnir yn adran 162(1) o'r Ddeddf honno. Yr awdurdod cenedlaethol priodol yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y trosglwyddwyd ei swyddogaethau i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(2) 2007 p. 15. Effaith paragraff 24(1) o Atodlen 7 i'r Ddeddf hon yw na chaiff Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau i wneud rheolau gweithdrefnol ar gyfer unrhyw dribiwnlys a restrwyd heb ymgynghori yn gyntaf â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Mae'r comisiynwyr traffig ar gyfer Cymru a Lloegr yn dribiwnlys a restrwyd at ddibenion paragraff 24(1) yn rhinwedd Gorchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) 2007 (O.S. 2007/2951).

(1) 2000 c. 38. Section 122 was amended by section 18 of the Local Transport Act 2008 (c. 26). The power to make Regulations under section 122 of the Transport Act 2000 rests with the "appropriate national authority", as defined in section 162(1) of that Act. The appropriate national authority is the National Assembly for Wales whose functions were transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

(2) 2007 c. 15. The effect of paragraph 24(1) of Schedule 7 to this Act is that the power of the Welsh Ministers to make procedural rules for any listed tribunal can be exercised only after consultation with the Administrative Justice and Tribunals Council. The traffic commissioners for England and Wales are a listed tribunal for the purposes of paragraph 24(1) by virtue of the Administrative Justice and Tribunals Council (Listed Tribunals) Order 2007 (S.I. 2007/2951).

RHAN 1

CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn, dirymu a chymhwyso

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru(1).

(3) Mae Rheoliadau Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd (Cyfleusterau sy'n Bodoli Eisoes) (Cymru) 2002(2) wedi eu dirymu.

Dehongli

2.–(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Trafndiaeth 2000;

ystyr "Deddf 1981" ("*the 1981 Act*") yw Deddf Cerbydau Teithwyr Cyhoeddus 1981(3);

ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Trafndiaeth 1985(4);

mae i "gwrthwynebiad derbyniadwy" ("*admissible objection*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 7;

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod trafndiaeth lleol(5);

ystyr "awdurdod arweiniol" ("*lead authority*") yw–

(a) yr awdurdod sydd wedi gwneud, neu sy'n bwriadu gwneud, cynllun; neu

(b) pan fo rheoliad 3 yn gymwys, yr awdurdod a enwir fel yr awdurdod arweiniol yn yr hysbysiad o gynllun arfaethedig a roddir o dan adran 115(1) o'r Ddeddf;

ystyr "gwrthwynebydd" ("*objector*") yw gweithredwr sydd wedi gwneud gwrthwynebiad yn unol â rheoliad 8;

mae i "gweithredwr perthnasol" ("*relevant operator*") yr ystyr a roddir yn rheoliadau 5 a 6;

ystyr "cynllun" ("*scheme*") yw cynllun partneriaeth ansawdd;

(c) ystyr "comisiynydd traffig" ("*traffic*

PART 1

GENERAL

Citation, commencement, revocation and application

1.–(1) These Regulations may be cited as The Quality Partnership Schemes (Wales) Regulations 2009 and come into force on 1 February 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales(1).

(3) The Quality Partnership Schemes (Existing Facilities) (Wales) Regulations 2002(2) are revoked.

Interpretation

2.–(1) In these Regulations–

"the Act" means the Transport Act 2000;

"the 1981 Act" means the Public Passenger Vehicles Act 1981(3);

"the 1985 Act" means the Transport Act 1985(4);

"admissible objection" has the meaning given in regulation 7;

"authority" means a local transport authority(5);

"lead authority" means–

(a) the authority which has made, or is proposing to make, a scheme; or

(b) where regulation 3 applies, the authority named as the lead authority in the notice of a proposed scheme given under section 115(1) of the Act;

"objector" means an operator who has made an objection in accordance with regulation 8;

"relevant operator" has the meaning given in regulations 5 and 6;

"scheme" means a quality partnership scheme;

"traffic commissioner" means, except for the purposes of regulations 5 and 7, the traffic commissioner for the Welsh Traffic Area.

(1) Mae'r pwerau i wneud Rheoliadau mewn perthynas â Chymru yn eiddo i Weinidogion Cymru.

(2) O.S. 2002/3017 (Cy. 287).

(3) 1981 p. 14.

(4) 1985 p. 67.

(5) diffinnir y term "local transport authority" yn adran 108(4) o Ddeddf Trafndiaeth 2000.

(1) The power to make Regulations as respects Wales rests with the Welsh Ministers.

(2) S.I. 2002/3017 (W. 287).

(3) 1981 c. 14.

(4) 1985 c. 67.

(5) The term "local transport authority" is defined in section 108(4) of the Transport Act 2000.

commissioner"), ac eithrio at ddibenion rheoliadau 5 a 7, yw'r Comisiynydd ar gyfer yr Ardal Draffig Gymreig.

(2) Rhaid cyfrifo unrhyw gyfnod o ddiwrnodau a ragnodir yn y Rheoliadau hyn heb gynnwys unrhyw ddiwrnod sy'n Ddydd Nadolig, Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n wyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1).

(3) Yn y Rheoliadau hyn, pan yw'n ofynnol bod person yn ystyried a ellir disgwyl i weithredwr sicrhau "cyfradd enillion briodol" ("*appropriate rate of return*") am weithredu gwasanaethau o safon benodol a bennir mewn unrhyw gynllun arfaethedig neu bresennol, rhaid i'r person hwnnw roi sylw i'r cyfraddau enillion nodweddiadol am weithredu gwasanaethau lleol o natur gymaradwy mewn mannau eraill yng Nghymru.

Dynodi awdurdod arweiniol

3.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw gynllun sy'n cynnwys safon o wasanaethau sy'n pennu gofynion o ran—

- (a) amlder neu amseriad y gwasanaethau; neu
- (b) y prisiau teithio uchaf y caniateir eu codi am deithiau penodol, neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol;

ac a wneir, neu y bwriedir ei wneud, gan ddau neu ragor o awdurdodau yn gweithredu ar y cyd.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r awdurdodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) nodi, yn yr hysbysiad o'r cynllun arfaethedig a roddir yn unol ag adran 115(1) o'r Ddeddf, pa un ohonynt sydd i weithredu fel yr awdurdod arweiniol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(3) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys rhaid i'r awdurdod arweiniol, cyn arfer pwerau mewn perthynas ag unrhyw rai o'r dyletswyddau a chyfrifoldebau a neilltuir yn rhinwedd y Rheoliadau hyn—

- (a) ymgynghori gyda, a gwahodd sylwadau gan; a
- (b) pan fo'n briodol, gweithredu yn unol â sylwadau;

yr awdurdod arall neu'r awdurdodau eraill y gwnaed y cynllun neu y bwriedir gwneud y cynllun ganddo neu ganddynt, ar y cyd â'r awdurdod arweiniol.

Gwasanaethau sydd i'w heithrio rhag cymhwyso adran 114(6B) o'r Ddeddf

4.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan ddarperir gwasanaeth lleol yn unol â chytundeb cymhorthdal gwasanaeth, neu gyfres o gytundebau o'r fath a gymerir gyda'i gilydd, a'r cytundeb hwnnw neu'r gyfres honno o gytundebau yn cael yr effaith a ddisgrifir ym mharagraff (2).

(2) Any period of days prescribed in these Regulations is to be calculated excluding any day which is Christmas Day, Good Friday, or a day which is a bank holiday in England and Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971(1).

(3) In these Regulations, where a person is required to consider whether an operator could be expected to secure an "appropriate rate of return" for operating services of a particular standard specified in any proposed or existing scheme, that person must have regard to the typical rates of return for operating local services of a comparable nature elsewhere in Wales.

Identification of lead authority

3.–(1) This regulation applies to any scheme containing a standard of services which includes requirements as to—

- (a) the frequency or timing of services; or
- (b) the maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions;

which is made, or is proposed to be made, by two or more authorities acting jointly.

(2) Where this regulation applies, the authorities referred to in paragraph (1) must specify in the notice of the proposed scheme given in accordance with section 115(1) of the Act which of them is to act as the lead authority for the purposes of these Regulations.

(3) Where this regulation applies the lead authority must, before exercising powers in relation to any of the duties and responsibilities assigned by virtue of these Regulations—

- (a) consult and seek representations from; and
- (b) wherever appropriate, act in accordance with the representations of;

the other authority or other authorities by whom the scheme is made, or is proposed to be made, jointly with the lead authority.

Services to be excluded from the application of section 114(6B) of the Act

4.–(1) This regulation applies where a local service is provided in accordance with a service subsidy agreement, or series of such agreements taken together, and that agreement or series of agreements has the effect described in paragraph (2).

(1) 1971 p. 80.

(1) 1971 c. 80.

(2) Yr effaith yw, yn rhinwedd gofyniad yn y cytundeb neu'r gyfres o gytundebau, bod gweithredwr yn darparu gwasanaeth a fyddai'n bodloni un neu ragor o ofynion perthnasol.

(3) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, nid yw'r cyfyngiad a gynhwysir yn adran 114(6B) o'r Ddeddf yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ofynion perthnasol.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) ystyr "cytundeb cymhorthdal gwasanaeth" ("*service subsidy agreement*") yw cytundeb a wneir o dan adran 9A(4) o Ddeddf Trafnidiaeth 1968(1) neu adran 63(5) o Ddeddf 1985 Act(2); a

(b) ystyr "gofyniad perthnasol" ("*relevant requirement*") yw gofyniad a bennir mewn cynllun neu mewn cynllun arfaethedig, ynglŷn â safon y gwasanaethau sydd i'w darparu, o ran amlder neu amseriad y gwasanaethau neu o ran y prisiau teithio uchaf y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol.

RHAN 2

PENDERFYNU YNGHYLCH GWEITHREDWR PERTHNASOL A GWRTHWYNEBIAD DERBYNIADWY

Diffinio "gweithredwr perthnasol"

5.—(1) At ddibenion adrannau 114(6B) a 122(3)(c) o'r Ddeddf, mae i "gweithredwr perthnasol" ("relevant operator") yr ystyr a roddir iddo gan y rheoliad hwn a chan reoliad 6.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), "gweithredwr perthnasol" yw gweithredwr sydd, ar y diwrnod pan roddir hysbysiad gyntaf gan awdurdod neu awdurdodau o dan adran 115(1) o'r Ddeddf, o'r cynnig i wneud cynllun—

(2) The effect is that by virtue of a requirement of the agreement or series of agreements, an operator provides services which would meet one or more relevant requirements.

(3) Where this regulation applies the restriction contained in section 114(6B) of the Act does not apply in respect of any relevant requirements.

(4) For the purposes of this regulation—

(a) a "service subsidy agreement" means an agreement made under section 9A(4) of the Transport Act 1968(1) or section 63(5) of the 1985 Act(2); and

(b) a "relevant requirement" means a requirement specified in a scheme, or proposed scheme, as to the standard of services to be provided in relation to the frequency or timing of services, or as to the maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions.

PART 2

DETERMINATION OF RELEVANT OPERATOR AND ADMISSIBLE OBJECTION

Definition of "relevant operator"

5.—(1) For the purposes of sections 114(6B) and 122(3)(c) of the Act, "relevant operator" has the meaning given to it by this regulation and regulation 6.

(2) Subject to paragraphs (3) and (4) a "relevant operator" is an operator who, on the day on which an authority or authorities first give notice under section 115(1) of the Act of the proposal to make a scheme—

(1) 1968 p. 73. Mewnsoodwyd adran 9A(4) o Ddeddf Trafnidiaeth 1968 gan Ddeddf Trafnidiaeth 1985, adran 57(2), a diwygiwyd hi gan adran 67 o Ddeddf Trafnidiaeth Leol 2008. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) Diwygiwyd adran 63(5) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 gan adran 68 o ddeddf Trafnidiaeth Leol 2008. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) 1968 c. 73. Section 9A(4) of the Transport Act 1968 was inserted by the Transport Act 1985, section 57(2), and has been amended by section 67 of the Local Transport Act 2008. There are other amendments which are not relevant to these Regulations.

(2) Section 63(5) of the Transport Act 1985 has been amended by section 68 of the Local Transport Act 2008. There are other amendments which are not relevant to these Regulations.

- (a) yn gweithredu un neu ragor o wasanaethau lleol yn unol â manylion a gofrestrwyd o dan adran 6 o Ddeddf 1985(1); neu
- (b) yn gymwys o dan adran 6(4) o Ddeddf 1985(2) i gael cais am gofrestrriad wedi ei dderbyn, ac wedi gwneud cais o'r fath i'r comisiynydd traffig am gofrestru un neu ragor o wasanaethau lleol;

ac y mae gan y gwasanaeth lleol y mae'r cofrestrriad neu, yn ôl fel y digwydd, y cais, yn ymwneud ag ef un neu ragor o arosfannau yn yr ardal y mae'r cynllun arfaethedig yn berthynol iddi.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i weithredwr—

- (a) pan fo'r gweithredwr, mewn perthynas â gwasanaeth lleol y mae paragraff (2)(a) yn gymwys iddo, wedi cyflwyno cais i'r comisiynydd traffig o dan adran 6(7) o Ddeddf 1985 i amrywio neu ddiddymu cofrestrriad y gwasanaeth lleol hwnnw; neu
- (b) pan fo'r gweithredwr, mewn perthynas â chais y mae paragraff (2)(b) yn gymwys iddo, wedi tynnu'r cais hwnnw yn ôl;

ac effaith is-paragraff (a) neu (b) yw na fyddai'r gweithredwr, ar yr adeg pan fyddai'r amrywio, diddymu neu dynnu'n ôl felly yn dod i rym, yn gweithredu unrhyw wasanaethau lleol gydag un neu ragor o arosfannau yn yr ardal y mae'r cynllun arfaethedig yn berthynol iddi.

(4) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i weithredwr gwasanaethau lleol os yr unig wasanaethau y mae'r gweithredwr hwnnw yn eu darparu, neu'n bwriadu eu darparu, ac y byddai'r paragraff hwnnw fel arall yn gymwys iddynt, yw gwasanaethau a fyddai, o dan y cynllun fel y'i hargymhellir gan yr awdurdod neu awdurdodau yn yr hysbysiad a roddir o dan adran 115(1) of the Act, wedi eu heithrio o'r cynllun o dan adran 116(3) o'r Ddeddf.

- (a) is operating one or more local services in accordance with particulars registered under section 6 of the 1985 Act(1); or
- (b) is eligible under section 6(4) of the 1985 Act(2) to have an application for registration accepted, and has made such an application to the traffic commissioner to register the particulars of one or more local services;

and the local service to which the registration or, as the case may be, application relates has one or more stopping places in the area to which the proposed scheme relates.

(3) Paragraph (2) does not apply to an operator when—

- (a) the operator has, in respect of a local service to which paragraph (2)(a) applies, submitted an application to the traffic commissioner under section 6(7) of the 1985 Act to vary or cancel the registration of that local service; or
- (b) the operator has, in respect of an application to which paragraph (2)(b) applies, withdrawn that application;

and the effect of either sub-paragraph (a) or (b) is that the operator would not, at such time as the variation, cancellation or withdrawal takes effect, be operating any local services with one or more stopping places in the area to which the proposed scheme relates.

(4) Paragraph (2) does not apply to an operator of local services if the only services which that operator provides, or proposes to provide, and to which that paragraph would otherwise apply are services which, under the scheme as proposed by the authority or authorities in the notice given under section 115(1) of the Act, would be excluded from the scheme under section 116(3) of the Act.

(1) Mae adran 6 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 wedi ei diwygio gan Ddeddf Rheilffyrdd 2005, adran 59(1) ac Atodlen 12, paragraff 8; Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006, adran 85 ac Atodlen 10, paragraffau 2(1) i (3); Deddf Trafnidiaeth Leol 2008, adrannau 48(1) a (2) a 65(2) i (4); Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, adrannau 25 a 26, Atodlen 1, paragraff 2, Atodlen 2. Mae hi hefyd i gael ei diwygio gan adran 49(1) i (4) o Ddeddf Trafnidiaeth Leol 2008 ar ddyddiad sydd i'w bennu yn unol ag adran 134(3) o'r Ddeddf honno. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) Mae adran 6(4) o Ddeddf 1985 yn darparu na cheir derbyn cais i gofrestru gwasanaeth lleol ac eithrio oddi wrth berson sy'n dal trwydded ddiamed gweithredwr Cerbyd Gwasanaeth Cyhoeddus, a ddyroddwyd o dan Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981, neu ganiatâd a roddwyd o dan adran 22 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985, neu sy'n bwriadu defnyddio bws ysgol i gludo teithwyr sy'n talu, yn unol ag adran 46(1) o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981.

(1) Section 6 of the Transport Act 1985 has been amended by the Railways Act 2005, section 59(1) and Schedule 12, paragraph 8; the Education and Inspections Act 2006, section 85 and Schedule 10, paragraphs 2(1) to (3); the Local Transport Act 2008, sections 48(1) and (2) and 65(2) to (4); the Learner Travel (Wales) Measure 2008, sections 25 and 26, Schedule 1, paragraph 2, Schedule 2. It is also to be amended by section 49(1) to (4) of the Local Transport Act 2008 on a date to be appointed in accordance with section 134(3) of that Act. There are other amendments which are not relevant to these Regulations.

(2) Section 6(4) of the 1985 Act provides that an application to register a local service may only be accepted from a person who holds an unconditional PSV operator's licence issued under the Public Passenger Vehicles Act 1981, a permit granted under section 22 of the Transport Act 1985, or is proposing to use a school bus for the carriage of fare-paying passengers in accordance with section 46(1) of the Public Passenger Vehicles Act 1981.

Diffinio "gweithredwr perthnasol" yn dilyn addasu cynllun arfaethedig

6.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod neu awdurdodau, ar ôl cynnal ymgynghoriad o dan adran 115 o'r Ddeddf, yn gwneud cynllun o dan adran 116(1) o'r Ddeddf sy'n cynnwys addasiadau, a'r addasiadau hynny yn cael yr effaith a ddisgrifir ym mharagraff (2).

(2) Yr effaith yw y byddai gweithredwr, nad oedd ar y dyddiad y cyfeirir ato yn rheoliad 5(2) yn bodloni'r diffiniad o weithredwr perthnasol yn y paragraff hwnnw, wedi bodloni'r diffiniad hwnnw pe bai'r cynllun arfaethedig y cyfeiriwyd ato yn yr hysbysiad a roddwyd o dan adran 115(1) wedi ei ddisodli gan y cynllun fel y'i haddaswyd.

(3) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r awdurdod arweiniol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gyflwyno hysbysiad i unrhyw weithredwr y gall fod paragraff (2) yn gymwys iddo, i roi gwybod i'r gweithredwr hwnnw am yr addasiadau i'r cynllun arfaethedig.

(4) Mae rheoliadau 8 i 15 yn berthnasol i unrhyw weithredwr yr oedd yn ofynnol bod hysbysiad wedi ei gyflwyno iddo o dan baragraff (3), fel pe bai'r cyfeiriad yn rheoliad 8(1) at gyhoeddi hysbysiad o dan adran 115(1) o'r Ddeddf yn gyfeiriad at gyflwyno hysbysiad o dan baragraff (3) o'r rheoliad hwn.

Diffinio "gwrthwynebiad derbyniadwy"

7.–(1) At ddibenion adrannau 114(6B) a 122(3)(c) o'r Ddeddf, mae i "gwrthwynebiad derbyniadwy" ("*admissible objection*") yr ystyr a roddir iddo yn y rheoliad hwn.

(2) "Gwrthwynebiad derbyniadwy" yw gwrthwynebiad–

- (a) a wneir yn unol â'r weithdrefn a ragnodir yn rheoliad 8; a
- (b) sy'n bodloni'r naill neu'r llall neu'r ddwy sail a ddisgrifir ym mharagraff (3).

(3) Y seiliau yw–

- (a) am y naill neu'r llall neu'r ddau o'r rhesymau a restrir ym mharagraff (4), na fyddai'n ymarferol i'r gwrthwynebydd ddarparu gwasanaethau perthnasol penodol, neu wasanaethau perthnasol o ddisgrifiad penodol, yn unol â safon benodedig a fyddai'n gymwys i'r gwasanaethau perthnasol hynny pe bai'r cynllun yn cael ei wneud fel a gynigiwyd yn yr hysbysiad a roddwyd o dan adran 115(1) o'r Ddeddf; neu
- (b) gan gymryd i ystyriaeth y materion a restrir ym mharagraff (5), na fyddai'n hyfyw yn fasnachol i'r gwrthwynebydd, gan weithredu mewn modd cymwys ac effeithlon, ddarparu gwasanaethau perthnasol yn unol â safon

Definition of "relevant operator" following modification of proposed scheme

6.–(1) This regulation applies where an authority or authorities, following consultation under section 115 of the Act, make a scheme under section 116(1) of the Act with modifications and those modifications have the effect described in paragraph (2).

(2) The effect is that an operator who did not, on the day referred to in regulation 5(2), satisfy the definition of a relevant operator in that paragraph would have satisfied that definition if the proposed scheme referred to in the notice given under section 115(1) of the Act had instead been the scheme as modified.

(3) Where this regulation applies the lead authority must, as soon as reasonably practicable, serve notice on any operator to whom paragraph (2) may apply informing that operator of the modifications to the proposed scheme.

(4) Regulations 8 to 15 apply to any operator on whom notice is required to have been served in accordance with paragraph (3) as if the reference in regulation 8(1) to the publication of a notice under section 115(1) of the Act was a reference to the service of a notice under paragraph (3) of this regulation.

Definition of "admissible objection"

7.–(1) For the purposes of sections 114(6B) and 122(3)(c) of the Act "admissible objection" has the meaning given to it in this regulation.

(2) An "admissible objection" is an objection–

- (a) made in accordance with the procedure prescribed in regulation 8; and
- (b) which satisfies either or both of the grounds described in paragraph (3).

(3) The grounds are that–

- (a) for either or both of the reasons listed in paragraph (4), it would not be practicable for the objector to provide particular relevant services, or relevant services of a particular description, to a specified standard which would apply to those relevant services if the scheme as proposed in the notice given under section 115(1) of the Act were to be made; or
- (b) taking into account the matters listed in paragraph (5), it would not be commercially viable for the objector, acting in a competent and efficient manner, to provide relevant services to a specified standard which would

benodedig a fyddai'n gymwys i'r gwasanaethau perthnasol hynny pe bai'r cynllun yn cael ei wneud fel a gynigiwyd yn yr hysbysiad a roddwyd o dan adran 115(1) o'r Ddeddf.

(4) Y rhesymau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3)(a) yw—

- (a) y byddai angen i'r gwrthwynebydd gaffael cerbydau ychwanegol, neu uwchraddio cerbydau presennol i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r safon a bennwyd yn y cynllun arfaethedig, ac na fyddai'n ymarferol i'r gwrthwynebydd gaffael y cerbydau ychwanegol, neu uwchraddio'r cerbydau presennol, erbyn y dyddiad a bennwyd yn y cynllun arfaethedig; neu
- (b) y byddai angen i'r gwrthwynebydd gyflogi staff ychwanegol i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r safon a bennwyd yn y cynllun arfaethedig, ac na fyddai'n ymarferol i'r gwrthwynebydd gyflogi'r staff ychwanegol erbyn y dyddiad a bennwyd yn y cynllun arfaethedig.

(5) Y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (3)(b) yw—

- (a) y gost debygol i'r gwrthwynebydd am ddarparu gwasanaethau perthnasol i'r safon benodol a fyddai'n gymwys i'r gwasanaethau hynny pe bai'r cynllun yn cael ei wneud fel a gynigiwyd yn yr hysbysiad a roddwyd o dan adran 115(1) o'r Ddeddf;
- (b) yr incwm y byddai'r gwrthwynebydd yn debygol o'i gael o weithredu'r gwasanaethau perthnasol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw refeniw o arian teithio ychwanegol sy'n debygol o ddeillio o ganlyniad i—
 - (i) darparu cyfleusterau gan yr awdurdod, a
 - (ii) gwelliannau yn safon y gwasanaethau,

pe bai'r cynllun yn cael ei wneud fel a gynigiwyd yn yr hysbysiad a roddwyd o dan adran 115(1) o'r Ddeddf; ac

- (c) gan gymryd i ystyriaeth y materion a ddisgrifir yn is-baragraffau (a) a (b), pa un a ellid disgwyl ai peidio i'r gwrthwynebydd sicrhau cyfradd enillion briodol o weithredu'r gwasanaethau perthnasol yn yr ardal y mae'r cynllun arfaethedig yn berthynol iddi.

(6) Yn ddarostyngedig i baragraffau (7) a (8), at ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "gwasanaethau perthnasol" ("*relevant services*") mewn perthynas â gweithredwr penodol, yw—

- (a) yr holl wasanaethau lleol, a gofrestrwyd o dan adran 6 o Ddeddf 1985 yn enw'r gweithredwr hwnnw, sydd ag un neu ragor o arosfannau yn yr ardal y mae'r cynllun yn berthynol iddi, ac mewn perthynas â'r cyfryw yr oedd y cofrestrriad yn bodoli ar y diwrnod y rhoddodd

apply to those relevant services if the scheme as proposed in the notice given under section 115(1) of the Act were to be made.

(4) The reasons referred to in paragraph (3)(a) are that—

- (a) additional vehicles would need to be procured by the objector, or existing vehicles upgraded, to provide the service to the particular standard specified in the proposed scheme and it would not be practicable for the objector to procure the additional vehicles, or to upgrade existing vehicles, by the date specified in the proposed scheme; or
- (b) additional staff would need to be employed by the objector to provide the service to the particular standard specified in the proposed scheme and it would not be practicable for the objector to employ the additional staff by the date specified in the proposed scheme.

(5) The matters referred to in paragraph (3)(b) are—

- (a) the likely cost to the objector of providing relevant services to the particular standard which would apply to those services if the scheme as proposed in the notice given under section 115(1) of the Act were to be made;
- (b) the income which the objector would be likely to receive from operating the relevant services, taking into account any additional fare revenue which is likely to accrue as a result of the—
 - (i) provision of facilities by the authority, and
 - (ii) improvements to the standard of services,

if the scheme as proposed in the notice given under section 115(1) of the Act were to be made; and

- (c) whether, taking into account the matters described in sub-paragraphs (a) and (b), the objector could be expected to secure an appropriate rate of return from the operation of the relevant services in the area to which the proposed scheme relates.

(6) Subject to paragraphs (7) and (8), for the purposes of this regulation "*relevant services*" means, in relation to a particular operator—

- (a) all local services registered under section 6 of the 1985 Act in the name of that operator which have one or more stopping places in the area to which the scheme relates and in respect of which, on the day on which the authority or authorities first gave notice under section

yr awdurdod neu'r awdurdodau hysbysiad gyntaf o dan adran 115(1) o'r Ddeddf; neu

- (b) yr holl wasanaethau lleol sydd ag un neu ragor o arosfannau yn yr ardal y mae'r cynllun yn berthynol iddi ac mewn perthynas â'r cyfryw yr oedd y gweithredwr wedi gwneud cais i'r comisiynydd traffig i gofrestru manylion o dan adran 6 o Ddeddf 1985, a'r cais hwnnw wedi ei wneud ar neu cyn y diwrnod y rhoddodd yr awdurdod neu'r awdurdodau hysbysiad gyntaf o dan adran 115(1) o'r Ddeddf.

(7) Nid yw gwasanaeth lleol yn wasanaeth perthnasol at ddibenion y rheoliad hwn os yw'r gweithredwr, ar ôl y diwrnod y rhoddodd yr awdurdod neu'r awdurdodau hysbysiad gyntaf o dan adran 115(1) o'r Ddeddf—

- (a) mewn perthynas â gwasanaeth lleol y mae paragraff (6)(a) yn gymwys iddo, yn cyflwyno cais i'r comisiynydd traffig o dan adran 6(7) o Ddeddf 1985 i amrywio neu ddiddymu cofrestriad y gwasanaeth, ac effaith hynny fel a ddisgrifir ym mharagraff (8); neu
- (b) mewn perthynas â gwasanaeth lleol arfaethedig y mae paragraff (6)(b) yn gymwys iddo, yn tynnu'n ôl y cais i gofrestru'r gwasanaeth.

(8) Yr effaith yw, ar yr adeg y byddai'r amrywiad neu'r diddymiad yn effeithiol, na fyddai gan y gwasanaeth lleol neu, yn ôl fel y digwydd, y gwasanaeth lleol arfaethedig, a fyddai'n wasanaeth perthnasol oni bai am baragraff (7) a'r paragraff hwn, unrhyw arosfannau yn yr ardal y mae'r cynllun yn berthynol iddi.

Gweithdrefn ar gyfer gwrthwynebu

8.—(1) Rhaid i weithredwr sy'n dymuno gwrthwynebu gofyniad sy'n dod o fewn adran 114(6)(b) neu (6A) o'r Ddeddf wneud y gwrthwynebiad mewn ysgrifen a'i gyflwyno i'r awdurdod arweiniol o fewn cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad a roddir o dan adran 115(1) o'r Ddeddf mewn perthynas â'r gofyniad hwnnw.

(2) Rhaid i'r gwrthwynebydd, yr un pryd ag y cyflwynir y gwrthwynebiad a wneir o dan baragraff (1) i'r awdurdod arweiniol, anfon copi o'r gwrthwynebiad at y comisiynydd traffig.

(3) Rhaid i wrthwynebiad a wneir o dan baragraff (1) gynnwys—

- (a) datganiad sy'n disgrifio ar ba sail y mae'r gwrthwynebydd o'r farn bod y gwrthwynebydd yn weithredwr perthnasol at ddibenion adrannau 114(6B) a 122(3)(c) o'r Ddeddf;
- (b) datganiad sy'n disgrifio ar ba sail y mae'r gwrthwynebydd o'r farn y bodlonir y naill neu'r llall neu'r ddwy o'r seiliau a bennir yn

115(1) of the Act, the registration was extant; or

- (b) all proposed local services with one or more stopping places in the area to which the scheme relates in respect of which the operator had made an application to the traffic commissioner to register particulars under section 6 of the 1985 Act, and that application was made on or before the day on which the authority or authorities first gave notice under section 115(1) of the Act.

(7) A local service is not a relevant service for the purposes of this regulation if, after the day on which the authority or authorities first gave notice under section 115(1) of the Act—

- (a) in respect of a local service to which paragraph (6)(a) applies, the operator submits an application to the traffic commissioner under section 6(7) of the 1985 Act to vary or cancel the registration of the service, and the effect is as described in paragraph (8); or
- (b) in respect of a proposed local service to which paragraph (6)(b) applies, the operator withdraws the application to register the service.

(8) The effect is that, at such time as the variation or cancellation takes effect the local service or, as the case may be, proposed local service, which, but for paragraph (7) and this paragraph, would be a relevant service, has no stopping places in the area to which the scheme relates.

Procedure for making an objection

8.—(1) An operator who wishes to object to a requirement falling within section 114(6)(b) or (6A) of the Act must make the objection in writing and serve it on the lead authority within a period of 28 days beginning with the day on which the notice given under section 115(1) of the Act in relation to that requirement is published.

(2) A copy of the objection made under paragraph (1) must, at the same time as the objection is served on the lead authority, be sent by the objector to the traffic commissioner.

(3) An objection made under paragraph (1) must contain—

- (a) a statement describing the basis on which the objector considers that the objector is a relevant operator for the purposes of sections 114(6B) and 122(3)(c) of the Act;
- (b) a statement describing the basis on which the objector considers that either or both of the grounds specified in regulation 7(3) is or are

rheoliad 7(3); ac

- (c) tystiolaeth i ategu'r datganiadau a ddisgrifir yn is-baragraffau (a) a (b).

Cais gan awdurdod arweiniol am ragor o wybodaeth

9.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) caiff yr awdurdod arweiniol, o fewn cyfnod o 14 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod pan geir gwrthwynebiad fel a ddisgrifir yn rheoliad 8, ofyn i'r gwrthwynebydd am ba bynnag wybodaeth bellach neu dystiolaeth a ystyrir yn angenrheidiol gan yr awdurdod hwnnw er mwyn penderfynu a yw gwrthwynebiad yn wrthwynebiad derbyniadwy, neu a yw'r gwrthwynebydd yn weithredwr perthnasol.

(2) Caiff yr awdurdod arweiniol, gyda chaniatâd ysgrifenedig y gwrthwynebydd, estyn y cyfnod o 14 diwrnod a bennir yn mharagraff (1).

(3) Os yw'r awdurdod arweiniol yn gofyn am wybodaeth neu dystiolaeth yn unol â pharagraff (1), rhaid i'r awdurdod bennu o fewn pa gyfnod y mae'r cyfryw wybodaeth neu dystiolaeth i'w chyflwyno gan y gwrthwynebydd, a rhaid i'r cyfnod hwnnw—

- (a) fod yn ddigon hir, o ystyried natur a chymhlethdod y cais, i roi amser rhesymol i'r gwrthwynebydd ymateb; a
- (b) peidio â bod yn llai na 14 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y gwneir y cais gan yr awdurdod.

(4) Os yw'r gwrthwynebydd yn methu ag ymateb i gais a wneir o dan baragraff (1) o fewn y cyfnod a bennir yn y cais yn unol â pharagraff (3), caiff yr awdurdod arweiniol, er gwaethaf hynny, fynd ymlaen i wneud penderfyniad o dan reoliad 10.

Penderfyniad yr awdurdod arweiniol

10.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), o fewn cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y ceir gwrthwynebiad neu, yn ôl fel y digwydd, ddiwrnod olaf y cyfnod y mae'n rhaid cyflwyno'r cyfryw wybodaeth bellach neu dystiolaeth ynddo o dan reoliad 9, rhaid i'r awdurdod arweiniol benderfynu—

- (a) a yw'r gwrthwynebydd yn weithredwr perthnasol; a
- (b) a yw'r gwrthwynebiad yn wrthwynebiad derbyniadwy;

a dyroddi hysbysiad ysgrifenedig i hysbysu'r gwrthwynebydd o'r penderfyniad hwnnw.

(2) Caiff yr awdurdod arweiniol, gyda chaniatâd ysgrifenedig y gwrthwynebydd, estyn y cyfnod o 28 diwrnod a bennir yn mharagraff (1).

(3) Os yw'r awdurdod arweiniol yn penderfynu—

satisfied; and

- (c) evidence to support the statements described in sub-paragraphs (a) and (b).

Request for further information by lead authority

9.–(1) Subject to paragraph (2) the lead authority may, within a period of 14 days beginning with the day on which an objection described in regulation 8 is received, request such further information or evidence from the objector as that authority considers necessary in order to reach a decision as to whether the objection is an admissible objection or the objector is a relevant operator.

(2) The lead authority may, with the written consent of the objector, extend the 14 day period specified in paragraph (1).

(3) If the lead authority requests information or evidence in accordance with paragraph (1) the authority must specify the period within which such information or evidence is to be submitted by the objector and that period must—

- (a) be of sufficient length, taking into account the nature and complexity of the request, to provide the objector with a reasonable period within which to respond; and
- (b) be not less than 14 days beginning with the day on which the request is issued by the authority.

(4) If the objector fails to respond to a request under paragraph (1) within the period specified in the request in accordance with paragraph (3) the lead authority may nevertheless proceed to make a decision under regulation 10.

Decision of lead authority

10.–(1) Subject to paragraph (2), within a period of 28 days beginning with the day on which an objection is received or, as the case may be, the end of the period within which such further information or evidence requested under regulation 9 must be submitted, the lead authority must make a decision as to whether—

- (a) the objector is a relevant operator; and
- (b) the objection is an admissible objection;

and issue a written notice to inform the objector of that decision.

(2) The lead authority may, with the written consent of the objector, extend the 28 day period specified in paragraph (1).

(3) Where the decision of the lead authority is that—

- (a) bod y gwrthwynebydd yn weithredwr perthnasol, a
- (b) bod y gwrthwynebiad yn wrthwynebiad derbyniadwy,

rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig a ddyroddir yn unol â pharagraff (1) fodloni'r gofyniad a ddisgrifir ym mharagraff (4).

(4) Y gofyniad yw fod rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig naill ai—

- (a) disgrifio'r addasiadau y mae'r awdurdod arweiniol yn bwriadu eu gwneud yn y safon gwasanaethau a bennir yn y cynllun, o ganlyniad i'r penderfyniad; neu
- (b) disgrifio pa bryd ac ym mha fodd y bydd yr awdurdod arweiniol yn dyroddi hysbysiad atodol i hysbysu'r gwrthwynebydd o'r addasiadau arfaethedig.

(5) Rhaid i'r awdurdod arweiniol anfon copi o'r hysbysiad ysgrifenedig a ddyroddir yn unol â pharagraff (1), a phan fo'n briodol yr hysbysiad atodol a ddyroddir yn unol â pharagraff (4)(b) at y comisiynydd traffig.

Atgyfeirio at y comisiynydd traffig

11.—(1) Caiff y gwrthwynebydd, o fewn cyfnod o 14 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad ysgrifenedig o dan reoliad 10(1) neu, pan fo'n briodol, yr hysbysiad atodol a ddisgrifir yn rheoliad 10 (4)(b), atgyfeirio'r naill neu'r llall o'r materion a ddisgrifir ym mharagraff (2) at y comisiynydd traffig, i'w benderfynu o dan reoliad 14.

(2) Y materion yw—

- (a) gwrthwynebiad i benderfyniad yr awdurdod arweiniol o dan reoliad 10(1) nad yw gwrthwynebydd yn weithredwr perthnasol neu nad yw gwrthwynebiad yn wrthwynebiad derbyniadwy; neu
- (b) gwrthwynebiad i'r safon addasedig o wasanaethau y mae'r awdurdod arweiniol yn cynnig ei phennu yn y cynllun, o ganlyniad i benderfyniad fel a ddisgrifir yn rheoliad 10(3).

(3) Pan atgyfeirir mater at y comisiynydd traffig yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i'r gwrthwynebydd, yr un pryd, anfon at y comisiynydd traffig—

- (a) copi o'r gwrthwynebiad fel y'i cyflwynwyd i'r awdurdod arweiniol;
- (b) copi o unrhyw wybodaeth bellach neu dystiolaeth a gyflwynwyd i'r awdurdod arweiniol wrth ymateb i unrhyw gais o dan reoliad 9(1);
- (c) pan yw'r mater yn wrthwynebiad fel a ddisgrifir ym mharagraff (2)(a), datganiad sy'n disgrifio pam, ym marn y gwrthwynebydd, y

- (a) the objector is a relevant operator, and
- (b) the objection is an admissible objection,

the written notice issued in accordance with paragraph (1) must satisfy the requirement described in paragraph (4).

(4) The requirement is that the written notice must either—

- (a) describe the modifications that the lead authority proposes to make to the standard of services to be specified in the scheme as a consequence of the decision; or
- (b) describe when and in what manner the lead authority will issue a supplementary notice to inform the objector of the proposed modifications.

(5) The lead authority must send a copy of the written notice issued in accordance with paragraph (1) and, where appropriate, the supplementary notice issued in accordance with paragraph (4)(b) to the traffic commissioner.

Referral to the traffic commissioner

11.—(1) The objector may, within a period of 14 days beginning with the day on which the written notice is issued under regulation 10(1) or, where appropriate, the supplementary notice described in regulation 10(4)(b) is issued, refer either of the matters described in paragraph (2) to the traffic commissioner for a determination under regulation 14.

(2) The matters are—

- (a) an objection to the decision of the lead authority under regulation 10(1) that an objector is not a relevant operator or that an objection is not an admissible objection; or
- (b) an objection to the modified standard of services that the lead authority proposes to specify in the scheme as a consequence of a decision as described in regulation 10(3).

(3) When a matter is referred to the traffic commissioner in accordance with this regulation the objector must at the same time send to the traffic commissioner—

- (a) a copy of the objection as submitted to the lead authority;
- (b) a copy of any further information or evidence submitted to the lead authority in response to any request under regulation 9(1);
- (c) where the matter is an objection described in paragraph (2)(a) a statement describing why, in the opinion of the objector, the decision of the

mae'r penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod arweiniol o dan reoliad 10 yn anghywir; ac

- (ch) pan yw'r mater yn wrthwynebiad fel a ddisgrifir ym mharagraff (2)(b), datganiad sy'n disgrifio pam, ym marn y gwrthwynebydd, y bodlonir y naill neu'r llall neu'r ddwy o'r seiliau a bennir yn rheoliad 7(3) mewn perthynas â'r safon addasedig o wasanaethau y cynigir ei phennu mewn cynllun.

(4) Rhaid i'r gwrthwynebydd, yr un pryd ag y mae'n cyflwyno'r wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraff (3) i'r comisiynydd traffig, gyflwyno copi o'r wybodaeth honno i'r awdurdod arweiniol.

Darparu gwybodaeth i'r comisiynydd traffig

12.–(1) Pan atgyfeirir mater o dan reoliad 11 i'w benderfynu gan y comisiynydd traffig, rhaid i'r awdurdod arweiniol, o fewn cyfnod o 14 diwrnod, sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y ceir yr wybodaeth a ddarperir yn rhinwedd rheoliad 11(4), gyflwyno i'r comisiynydd traffig–

- (a) datganiad sy'n disgrifio ar ba sail y gwnaed y penderfyniad o dan reoliad 10; a
- (b) unrhyw dystiolaeth ychwanegol neu wybodaeth sydd, ym marn yr awdurdod, yn berthnasol i'r penderfyniad.

(2) Rhaid i'r awdurdod arweiniol, yr un pryd ag y mae'n cyflwyno'r datganiad a ddisgrifir ym mharagraff (1)(a), anfon at y gwrthwynebydd gopi o'r datganiad hwnnw a pha bynnag dystiolaeth ychwanegol neu wybodaeth a gyflwynir gan yr awdurdod arweiniol i'r comisiynydd traffig yn unol â pharagraff (1)(b).

(3) Os yw'r awdurdod arweiniol yn methu â chyflwyno'r deunydd a ddisgrifir ym mharagraff (1)(a) a (b) o fewn y cyfnod a bennir yn y paragraff hwnnw, caiff y comisiynydd traffig, er gwaethaf hynny, fynd ymlaen i wneud penderfyniad o dan reoliad 14.

(4) Caiff y comisiynydd traffig, o fewn cyfnod o 14 diwrnod sy'n cychwyn gyda diwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno'r deunydd a ddisgrifir ym mharagraff (1)(a) a (b), ofyn am ba bynnag wybodaeth bellach neu dystiolaeth gan y gwrthwynebydd neu'r awdurdod arweiniol ag a ystyrir yn angenrheidiol gan y comisiynydd traffig er mwyn gwneud penderfyniad.

(5) Pan ofynnir am wybodaeth o'r fath yn unol â pharagraff (4), rhaid i'r gwrthwynebydd neu, yn ôl fel y digwydd, yr awdurdod arweiniol, gyflwyno'r cyfryw wybodaeth neu dystiolaeth o fewn cyfnod o 14 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y ceir y cais.

(6) Rhaid i'r gwrthwynebydd neu, yn ôl fel y digwydd, yr awdurdod arweiniol, yr un pryd ag y mae'n cyflwyno unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a geisiwyd o dan baragraff (4) i'r comisiynydd traffig, anfon copi o'r wybodaeth neu'r dystiolaeth honno at yr

lead authority made under regulation 10 is incorrect; and

- (d) where the matter is an objection described in paragraph (2)(b) a statement describing why, in the opinion of the objector, either or both of the grounds specified in regulation 7(3) are satisfied in relation to the modified standard of services proposed to be specified in a scheme.

(4) The objector must, at the same time as submitting the information described in paragraph (3) to the traffic commissioner, submit a copy of that information to the lead authority.

Provision of information to traffic commissioner

12.–(1) Where a matter is referred to the traffic commissioner under regulation 11 for a determination the lead authority must, within a period of 14 days beginning with the day on which the information provided by virtue of regulation 11(4) is received, submit to the traffic commissioner–

- (a) a statement describing the basis on which the decision under regulation 10 was taken; and
- (b) any additional evidence or information which that authority considers to be relevant to the determination.

(2) The lead authority must, at the same time as it submits the statement described in paragraph (1)(a), send to the objector a copy of that statement and such additional evidence or information which the lead authority is submitting to the traffic commissioner in accordance with paragraph (1)(b).

(3) If the lead authority fails to submit the material described in paragraph (1)(a) and (b) within the period specified in that paragraph, the traffic commissioner may nevertheless proceed to make a determination under regulation 14.

(4) The traffic commissioner may, within a period of 14 days beginning with the end of the period for the submission of the material described in paragraph (1)(a) and (b), request such further information or evidence from the objector or the lead authority as the traffic commissioner considers necessary in order to make a determination.

(5) Where such information or evidence is requested in accordance with paragraph (4) the objector or, as the case may be, the lead authority must submit that information or evidence within a period of 14 days beginning with the day on which the request is received.

(6) The objector or, as the case may be, the lead authority must, at the same time as it submits any information or evidence requested under paragraph (4) to the traffic commissioner, send a copy of that information or evidence to the lead authority or, as the

awdurdod arweiniol neu, yn ôl fel y digwydd, at y gwrthwynebydd.

(7) Os yw'r gwrthwynebydd neu, yn ôl fel y digwydd, yr awdurdod arweiniol, yn methu ag ymateb i gais o dan baragraff (4) o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (5) caiff y comisiynydd traffig, er gwaethaf hynny, fynd ymlaen i wneud penderfyniad o dan reoliad 14.

Aseswyr i gynorthwyo comisiynwyr traffig

13.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan yw'n ofynnol bod y comisiynydd traffig, wrth ystyried unrhyw fater a atgyfeirir o dan reoliad 11, yn penderfynu a yw'r sail a bennir yn rheoliad 7(3)(b) wedi ei bodloni.

(2) Wrth wneud penderfyniad o'r fath caiff y comisiynydd fanteisio ar gymorth asesydd a ddewisir o banel o bersonau a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adran 17A o Ddeddf 1981(1).

(3) Pan fo comisiynydd traffig yn ceisio cymorth gan berson fel a ddisgrifir ym mharagraff (2), rhaid i'r comisiynydd traffig dalu i'r person hwnnw pa bynnag gydnabyddiaeth a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Penderfyniad y comisiynydd traffig

14.–(1) O fewn cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda dyddiad y diweddaraf o'r canlynol–

- (a) diwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno'r deunydd a ddisgrifir yn rheoliad 12(1)(a) a (b); neu
- (b) diwedd y cyfnod y mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth bellach neu dystiolaeth a geisir o dan reoliad 12(4) gael ei chyflwyno ynddo;

rhaid i'r comisiynydd traffig benderfynu'r mater a atgyfeirir o dan reoliad 11, a dyroddi hysbysiad ysgrifenedig i'r gwrthwynebydd ac i'r awdurdod arweiniol i'w hysbysu o'r penderfyniad.

(2) Os penderfyniad y comisiynydd traffig yw y dylid cadarnhau'r gwrthwynebiad, caiff y comisiynydd traffig argymhell bod yr awdurdod arweiniol yn gwneud pa bynnag addasiadau i'r gofynion yn y cynllun arfaethedig, o ran amlerau, amseriadau neu brisiau teithio uchaf, a ystyrir yn briodol gan y comisiynydd traffig.

(3) Os yw'r comisiynydd traffig yn gwneud argymhellion i'r awdurdod arweiniol yn unol â pharagraff (2) a'r awdurdod naill ai–

- (a) yn addasu'r cynllun yn unol â'r argymhellion hynny; neu
- (b) yn dileu'r gofyniad y mae'r gwrthwynebiad derbyniadwy yn ymwneud ag ef;

case may be, the objector.

(7) If the objector or, as the case may be, the lead authority fails to respond to a request under paragraph (4) within the period specified in paragraph (5) the traffic commissioner may nevertheless proceed to make a determination under regulation 14.

Assessors to assist traffic commissioners

13.–(1) This regulation applies where the traffic commissioner, in considering any matter referred under regulation 11, is required to determine whether the ground specified in regulation 7(3)(b) has been satisfied.

(2) In making such a determination the traffic commissioner may be assisted by an assessor selected from a panel of persons appointed by the Secretary of State for the purposes of section 17A of the 1981 Act(1).

(3) Where a traffic commissioner seeks the assistance of a person described in paragraph (2), the traffic commissioner must pay that person such remuneration as may be determined by the Secretary of State.

Determination of the traffic commissioner

14.–(1) Within a period of 28 days beginning with the date of the later of the following–

- (a) the end of the period for submission of the material described in regulation 12(1)(a) and (b); or
- (b) the end of the period within which such further information or evidence requested under regulation 12(4) must be submitted;

the traffic commissioner must make a determination of the matter referred under regulation 11 and issue a written notice to the objector and the lead authority informing them of the determination.

(2) Where the determination of the traffic commissioner is that the objection should be upheld, the traffic commissioner may recommend to the lead authority such modifications to the requirements specified in the proposed scheme as to frequencies, timings or maximum fares as the traffic commissioner considers appropriate.

(3) Where the traffic commissioner makes recommendations to the lead authority in accordance with paragraph (2), and the authority either–

- (a) modifies the scheme in accordance with those recommendations; or
- (b) removes the requirement to which the admissible objection relates;

(1) Mewnsoodwyd adran 17A gan adran 5 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985.

(1) Section 17A was inserted by section 5 of the Transport Act 1985.

nid fydd y gwrthwynebiad wedyn yn wrthwynebiad derbyniadwy at ddibenion adran 114(6B) o'r Ddeddf.

(4) Naill ai—

- (a) os nad yw'r comisiynydd traffig yn gwneud argymhellion i'r awdurdod arweiniol ynglŷn â phenderfyniad fel a ddisgrifir ym mharagraff (2); neu
- (b) os yw'r awdurdod yn cynnig addasiadau i'r cynllun sy'n wahanol i'r rheini a argymhellir gan y comisiynydd traffig o dan baragraff (2);

mae'r paragraffau (5) i (9) yn gymwys.

(5) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i'r awdurdod arweiniol, o fewn cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod mae'n cael y penderfyniad a wnaed o dan baragraff (1), anfon hysbysiad ysgrifenedig at y gwrthwynebydd gan ddisgrifio'r addasiadau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu gwneud yn y safon o wasanaethau a bennir yn y cynllun, o ganlyniad i benderfyniad fel a ddisgrifir ym mharagraff (2).

(6) Caiff yr awdurdod arweiniol, gyda chaniatâd ysgrifenedig y gwrthwynebydd, estyn y cyfnod o 28 diwrnod a bennir ym mharagraff (5).

(7) Os na fydd y gwrthwynebydd wedi tynnu'n ôl y gwrthwynebiad o fewn cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y mae'r gwrthwynebydd yn cael yr hysbysiad o dan baragraff (5), caiff yr awdurdod arweiniol atgyfeirio'r mater yn ôl at y comisiynydd traffig am benderfyniad.

(8) Pan fo unrhyw fater wedi ei atgyfeirio yn ôl at y comisiynydd traffig yn rhinwedd paragraff (7), rhaid i'r comisiynydd traffig wneud penderfyniad o fewn 14 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r dyddiad yr atgyfeirir y mater.

(9) Os yw'r comisiynydd traffig, wrth ymateb i atgyfeiriad o dan baragraff (7), yn penderfynu nad yw'r gwrthwynebiad yn wrthwynebiad derbyniadwy, ni fydd y gwrthwynebiad wedyn yn wrthwynebiad derbyniadwy at ddibenion adran 114(6B) o'r Ddeddf.

Estyniad amser

15.—(1) Pan fo'r comisiynydd traffig o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin yn deg a chyfiawn ag achos penodol, caiff y comisiynydd traffig, yn unol â pharagraff (2), estyn unrhyw un o'r cyfnodau a ddisgrifir ym mharagraff (3).

(2) Ni cheir estyn cyfnod a ddisgrifir ym mharagraff (3) ac eithrio am y cyfryw gyfnod a ystyrir yn briodol yn amgylchiadau'r achos gan y comisiynydd traffig

(3) Y cyfnodau yw'r rheini a bennir yn—

- (a) rheoliad 11(1);
- (b) rheoliad 12(1);

the objection is no longer an admissible objection for the purposes of section 114(6B) of the Act.

(4) Where either—

- (a) the traffic commissioner does not make recommendations to the lead authority in relation to a determination described in paragraph (2); or
- (b) the authority proposes modifications to the scheme which are different to those recommended by the traffic commissioner under paragraph (2);

paragraphs (5) to (9) apply.

(5) Where this paragraph applies the lead authority must, within a period of 28 days beginning with the day on which the determination made under paragraph (1) is received, send a written notice to the objector describing the modifications that the authority proposes to make to the standard of services to be specified in the scheme as a consequence of a determination described in paragraph (2).

(6) The lead authority may, with the written consent of the objector, extend the 28 day period specified in paragraph (5).

(7) If within a period of 14 days beginning with the day on which the notice under paragraph (5) is received the objector has not withdrawn the objection, the lead authority may refer the matter back to the traffic commissioner for a determination.

(8) Where any matter is referred back to the traffic commissioner by virtue of paragraph (7), the traffic commissioner must make a determination within a period of 14 days beginning with the date on which the matter is referred.

(9) Where the determination of the traffic commissioner in response to a referral under paragraph (7) is that the objection is not an admissible objection, the objection is no longer an admissible objection for the purposes of section 114(6B) of the Act.

Extension of time

15.—(1) Where the traffic commissioner considers it to be necessary in order for a particular case to be dealt with fairly and justly the traffic commissioner may, in accordance with paragraph (2), extend any of the periods described in paragraph (3).

(2) A period described in paragraph (3) may only be extended for such period as the traffic commissioner considers appropriate in the circumstances of the case.

(3) The periods are those specified in—

- (a) regulation 11(1);
- (b) regulation 12(1);

- (c) rheoliad 12(4);
- (ch) rheoliad 12(5);
- (d) rheoliad 14(1); a
- (dd) rheoliad 14(8).

- (c) regulation 12(4);
- (d) regulation 12(5);
- (e) regulation 14(1); and
- (f) regulation 14(8).

RHAN 3

PART 3

ADOLYGU GOFYNION O RAN AMLDERAU, AMSERIADAU NEU BRISIAU TEITHIO UCHAF

REVIEW OF REQUIREMENTS AS TO FREQUENCIES, TIMINGS OR MAXIMUM FARES

Dehongli Rhan 3

Interpretation of Part 3

16. At ddibenion y Rhan hon—

16. For the purposes of this Part—

- (a) mae adolygiad yn "orffenedig" ("*completed*") ar y diweddraf o'r dyddiadau canlynol—
 - (i) pan fo gwrthwynebiad i'r cyfan neu unrhyw ran o ganlyniad yr adolygiad wedi ei gyflwyno yn rhinwedd rheoliad 25(2), y dyddiad y penderfynir y gwrthwynebiad hwnnw yn derfynol,
 - (ii) y dyddiad y daw'r amser ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiad o dan reoliad 25(2) i ben heb i unrhyw wrthwynebiad o'r fath gael ei wneud, neu
 - (iii) y dyddiad y rhoddir y gorau i wrthwynebiad a wnaed yn unol â rheoliad 25(2) neu y tynnir y gwrthwynebiad yn ôl,

- (a) a review is "completed" on the latest of the following dates—
 - (i) where an objection to the whole or any part of the outcome of the review has been submitted by virtue of regulation 25(2), the date on which that objection is finally determined,
 - (ii) the date on which the time for the submission of an objection under regulation 25(2) expires without any such objection having been made, or
 - (iii) the date on which an objection made in accordance with regulation 25(2) is abandoned or withdrawn,

ac y mae "gwrthwynebiad" ("*objection*") yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw atgyfeiriad pellach at gomisiynydd traffig am benderfyniad o dan reoliad 11, fel y'i cymhwysir gan reoliad 25;

and "objection" includes a reference to any further referral to a traffic commissioner for a determination under regulation 11, as applied by regulation 25;

- (b) mae cais am adolygu gofyniad o ran amlderau, amseriadau neu brisiau teithio uchaf yn "gais a eithrir" ("*excepted request*") os yw'r awdurdod arweiniol o'r farn na ddigwyddodd, er y dyddiad perthnasol, unrhyw newid yn amodau'r farchnad sy'n effeithio'n sylweddol ar allu'r gweithredwr neu'r gweithredwyr sy'n gwneud y cais i sicrhau, gan weithredu mewn modd cymwys ac effeithlon, cyfradd enillion briodol wrth barhau i weithredu gwasanaethau presennol yn unol â'r safon a bennir yn y cynllun;
- (c) ystyr "gwasanaethau presennol" ("*existing services*"), mewn perthynas â gweithredwr penodol, yw'r holl wasanaethau lleol a gofrestrwyd o dan adran 6 o Ddeddf 1985 yn enw'r gweithredwr hwnnw—
 - (i) sydd ag un neu ragor o arosfannau yn yr ardal y mae'r cynllun yn berthynol iddi; a
 - (ii) mewn perthynas â'r cyfryw, ar y diwrnod pan yw'r awdurdod arweiniol, heb gael cais gan weithredwr cyfranogol perthnasol, yn penderfynu cychwyn adolygiad neu, yn ôl fel y digwydd, pan wneir gais am

- (b) a request for a review of a requirement as to frequencies, timings or maximum fares is an "excepted request" if the lead authority is of the opinion that, since the relevant date, there has not been a change in market conditions which materially affects the ability of the operator or operators making the request, acting in a competent and efficient manner, to secure an appropriate rate of return from continuing to operate existing services to the standard specified in the scheme;
- (c) "existing services" means, in relation to a particular operator, all local services registered under section 6 of the 1985 Act in the name of that operator—
 - (i) which have one or more stopping places in the area to which the scheme relates; and
 - (ii) in respect of which, on the day on which the lead authority, without a request from a relevant participating operator, decides to start a review or, as the case may be, a request for a review is made by a relevant

- adolygiad gan weithredwr cyfranogol perthnasol, y mae'r cofrestrriad yn bodoli;
- (ch) mae i "cyfnod gofyniad prisiau teithio uchaf" ("*maximum fares requirement period*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 17(2);
- (d) ystyr "gweithredwr cyfranogol" ("*participating operator*"), mewn perthynas â chynllun penodol, yw gweithredwr—
- (i) a roddodd ymgymriad ysgrifenedig i'r comisiynydd traffig yn unol ag adran 118(4)(a) o'r Ddeddf mewn perthynas â'r cynllun hwnnw; a
- (ii) sydd, ar y dyddiad perthnasol, yn gweithredu gwasanaethau lleol yn unol â thelerau'r ymgymriad hwnnw;
- (dd) ystyr "dyddiad perthnasol", mewn perthynas â gofyniad o ran amldeiriau, amseriadau neu brisiau teithio uchaf, yw naill ai—
- (i) y dyddiad y cyflwynwyd y gofyniad gyntaf, neu, os amrywir gofyniad o ran prisiau teithio uchaf yn unol â fformiwla, y dyddiad y cyflwynwyd y fformiwla gyntaf; neu
- (ii) os cynhaliwyd adolygiad blaenorol o'r gofyniad hwnnw neu'r fformiwla honno, y dyddiad y cwblhawyd yr adolygiad hwnnw;
- (e) ystyr "gweithredwr cyfranogol perthnasol" ("*relevant participating operator*"), mewn perthynas ag unrhyw ofyniad o ran amldeiriau, amseriadau neu brisiau teithio uchaf a bennir mewn cynllun, yw gweithredwr cyfranogol y mae'r gofyniad hwnnw'n gymwys iddo; ac
- (f) ystyr "hysbysiad adolygu" ("*review notice*") yw hysbysiad a ddyroddir gan awdurdod arweiniol i gychwyn adolygiad o ofynion o ran amldeiriau, amseriadau neu brisiau teithio uchaf o dan y Rheoliadau hyn.

Adolygu gofynion o ran prisiau teithio uchaf gan yr awdurdod arweiniol

17.—(1) Ac eithrio pan fo rheoliad 20 yn gymwys, pan fo cynllun a wneir gan awdurdod neu awdurdodau yn pennu safon gwasanaethau sy'n cynnwys gofynion o ran y prisiau teithio uchaf y ceir eu codi am deithiau penodol, neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol, rhaid i'r cynllun hwnnw bennu cyfnod gofyniad prisiau teithio uchaf, yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Cyfnod gofyniad prisiau teithio uchaf yw, yn ôl fel y digwydd, y cyfnod—

- (a) rhwng y dyddiad pan ddaw'r gofynion o ran prisiau teithio uchaf i rym gyntaf a'r dyddiad a bennwyd fel y dyddiad olaf, erbyn y cyfryw y mae'n rhaid cychwyn yr adolygiad cyntaf o'r gofynion hynny; neu

- participating operator, the registration is extant;
- (d) "maximum fares requirement period" has the meaning given in regulation 17(2);
- (e) "participating operator" means, in relation to a particular scheme, an operator—
- (i) who has given a written undertaking to the traffic commissioner in accordance with section 118(4)(a) of the Act in respect of that scheme; a
- (ii) who is, at the relevant date, operating local services in accordance with the terms of that undertaking;
- (f) "relevant date" in relation to a requirement as to frequencies, timings or maximum fares, means either—
- (i) the date on which the requirement or, where a requirement as to maximum fares is varied in accordance with a formula, that formula was first introduced; or
- (ii) where there has been a previous review of that requirement or formula, the date on which that review was completed;
- (g) "relevant participating operator" means, in relation to any requirement as to frequencies, timings or maximum fares specified in a scheme, a participating operator to whom that requirement applies; and
- (h) "review notice" means a notice issued by a lead authority to start a review of requirements as to frequencies, timings or maximum fares under these Regulations.

Review of requirements as to maximum fares by lead authority

17.—(1) Except where regulation 20 applies, where an authority or authorities make a scheme which specifies a standard of services which includes requirements as to the maximum fares that may be charged for particular journeys, of for journeys of particular descriptions, that scheme must specify a maximum fares requirement period in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) A maximum fares requirement period is, as the case may be, the period—

- (a) between the date on which the requirements as to maximum fares first come into effect, and the latest date by which it is specified that the first review of those requirements must start; or

(b) rhwng cwblhau adolygiad o'r gofynion o ran prisiau teithio uchaf a'r dyddiad a bennwyd fel y dyddiad olaf, erbyn y cyfryw y mae'n rhaid cychwyn yr adolygiad nesaf o'r gofynion hynny.

(3) Ni chaiff y cyfnod gofyniad prisiau teithio uchaf fod yn fwy na 12 mis.

(4) Cyn diwedd y cyfnod gofyniad prisiau teithio uchaf, rhaid i'r awdurdod arweiniol gychwyn adolygiad drwy ddyroddi hysbysiad adolygu ysgrifenedig i'r gweithredwyr cyfranogol hynny y mae'r gofynion prisiau teithio uchaf yn gymwys iddynt.

(5) Rhaid i'r hysbysiad adolygu gynnig—

- (a) bod y gofynion o ran y prisiau teithio uchaf y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol, a gynhwysir yn y cynllun neu mewn unrhyw ran o'r cynllun, yn peidio â chael effaith;
- (b) bod y prisiau teithio uchaf presennol y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol yn parhau i gael effaith tan yr adolygiad nesaf; neu
- (c) gofynion diwygiedig o ran y prisiau teithio uchaf y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol.

(6) Ar yr amod bod yr awdurdod arweiniol yn dyroddi hysbysiad adolygu cyn diwedd y cyfnod gofyniad prisiau teithio uchaf, bydd y gofynion presennol o ran y prisiau teithio uchaf a gynhwysir yn y cynllun yn parhau i gael effaith, oni fydd paragraff (7) yn gymwys, hyd nes bo'r awdurdod hwnnw'n gwneud penderfyniad yn unol â rheoliad 24(2).

(7) Os y penderfyniad a wneir yn unol â rheoliad 24(2) yw y dylai gofynion diwygiedig o ran y prisiau teithio uchaf gael eu cynnwys yn y cynllun, bydd y gofynion presennol o ran y prisiau teithio uchaf a gynhwysir yn y cynllun yn parhau i gael effaith hyd nes bo'r gofynion diwygiedig hynny yn dod i rym yn unol â'r amserlen a bennir yn unol â rheoliad 24(5)(b).

(8) Os yw'r awdurdod arweiniol o'r farn bod y naill neu'r llall neu'r ddau o'r amodau ym mharagraff (9) wedi eu bodloni mewn perthynas â rhai neu bob un o'r gofynion o ran y prisiau teithio uchaf y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol, caiff yr awdurdod, ar unrhyw adeg cyn diwedd y cyfnod gofyniad prisiau teithio uchaf, gychwyn adolygiad o'r gofynion hynny drwy ddyroddi hysbysiad adolygu ysgrifenedig i'r gweithredwyr cyfranogol perthnasol.

(9) Yr amodau yw—

- (a) er y dyddiad perthnasol, bod newid wedi digwydd yn amodau'r farchnad sy'n effeithio'n sylweddol ar allu gweithredwyr cyfranogol

(b) between the completion of a review of the requirements as to maximum fares, and the latest date by which it is specified that the next review of those requirements must start.

(3) The maximum fares requirement period must be no greater than 12 months.

(4) Prior to the end of the maximum fares requirement period the lead authority must start a review by issuing a written review notice to participating operators to whom the requirements as to maximum fares apply.

(5) The review notice must propose—

- (a) that requirements as to the maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions, contained in the scheme, or any part of the scheme, should cease to have effect;
- (b) that the existing maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions, should continue to have effect until the next review; or
- (c) revised requirements as to the maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions.

(6) Provided the lead authority issues a review notice prior to the end of the maximum fares requirement period, the existing requirements as to maximum fares contained in the scheme continue to have effect, unless paragraph (7) applies, until that authority makes a decision in accordance with regulation 24(2).

(7) Where the decision made in accordance with regulation 24(2) is that revised requirements as to maximum fares should be incorporated into the scheme, the existing requirements as to maximum fares contained in the scheme continue to have effect until such time as those revised requirements take effect in accordance with the timetable specified in accordance with regulation 24(5)(b).

(8) If the lead authority considers that either or both of the conditions in paragraph (9) are met in relation to some or all of the requirements as to the maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions, it may, at any time prior to the end of the maximum fares requirement period, start a review of those requirements by issuing a written review notice to relevant participating operators.

(9) The conditions are that—

- (a) there has, since the relevant date, been a change in market conditions which materially affects the ability of relevant participating

perthnasol, drwy weithredu mewn modd cymwys ac effeithlon, i sicrhau cyfradd enillion briodol am barhau i weithredu gwasanaethau presennol yn unol â'r gofynion o ran prisiau teithio uchaf a bennir yn y cynllun; neu

- (b) nad yw'r gofynion presennol bellach yn gyson â pholisïau trafndiaeth leol⁽¹⁾ yr awdurdod arweiniol, neu'r awdurdod arall neu unrhyw un o'r awdurdodau eraill (yn ôl fel y digwydd), y gwnaed y cynllun ganddynt.

Methiant awdurdod arweiniol i adolygu gofynion o ran prisiau teithio uchaf

18.–(1) Os yw awdurdod arweiniol yn methu â dyroddi hysbysiad adolygu cyn diwedd y cyfnod gofyniad prisiau teithio uchaf, caiff unrhyw weithredwr cyfranogol y mae gofynion o ran prisiau teithio uchaf yn gymwys iddo wneud cais am adolygu'r gofynion.

(2) Rhaid i weithredwr sy'n dymuno gwneud cais o dan baragraff (1) wneud y cais mewn ysgriflen a'i gyflwyno i'r awdurdod arweiniol o fewn cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod pan yw cyfnod y gofyniad prisiau teithio uchaf yn dod i ben.

(3) Rhaid anfon copi o'r cais a wneir o dan baragraff (1) at y comisiynydd traffig, yr un pryd ag y cyflwynir y cais i'r awdurdod arweiniol.

(4) Os na fydd yr awdurdod arweiniol, o fewn cyfnod o 14 diwrnod sy'n cychwyn ar y diwrnod y ceir cais a wnaed yn unol â pharagraff (1), wedi dyroddi hysbysiad adolygu, bydd unrhyw ofynion o ran y prisiau teithio uchaf y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol yn peidio â chael effaith.

(5) Os yw awdurdod arweiniol yn methu â dyroddi hysbysiad adolygu cyn diwedd y cyfnod gofyniad prisiau teithio uchaf, ac na wneir cais o dan baragraff (1), bydd unrhyw ofynion o ran y prisiau teithio uchaf y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol yn parhau mewn grym—

- (a) hyd nes daw gofynion diwygiedig i rym ar ôl adolygiad dilynol; neu
- (b) hyd nes peidia'r gofynion â chael effaith ar ôl adolygiad dilynol;

pa un bynnag fo'r cynharaf.

operators, acting in a competent and efficient manner, to secure an appropriate rate of return from continuing to operate existing services in accordance with the requirements as to maximum fares specified in the scheme; or

- (b) the existing requirements are no longer consistent with the local transport policies⁽¹⁾ of the lead authority or of the other authority or of any of the other authorities (as the case may be) by whom the scheme is made.

Failure of lead authority to review requirements as to maximum fares

18.–(1) If a lead authority fails to issue a review notice before the end of the maximum fares requirement period, any participating operator to whom requirements as to maximum fares apply may request a review of the requirements.

(2) An operator who wishes to make a request under paragraph (1) must make the request in writing and serve it on the lead authority within a period of 28 days beginning with the day on which the maximum fares requirement period ends.

(3) A copy of the request made under paragraph (1) must, at the same time as the request is served on the lead authority, be sent to the traffic commissioner.

(4) If, within a period of 14 days beginning with the day on which a request made in accordance with paragraph (1) is received, the lead authority has not issued a review notice, any requirements as to the maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions, cease to have effect.

(5) If a lead authority fails to issue a review notice before the end of the maximum fares requirement period, and no request is made under paragraph (1), any requirements as to the maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions, remain in force until—

- (a) revised requirements come into effect following a subsequent review; or
- (b) the requirements cease to have effect following a subsequent review;

whichever is the earlier.

(1) Mae i'r term "polisiau trafndiaeth leol" yr ystyr a roddir i "local transport policies" yn adran 108(5) o Ddeddf Trafndiaeth 2000, a fewnosodwyd gan adran 7(1) a (2) o Ddeddf Trafndiaeth Leol 2008.

(1) The term "local transport policies" is defined in section 108(5) of the Transport Act 2000, inserted by section 7(1) and (2) of the Local Transport Act 2008.

Cais gan weithredwr am adolygu gofynion o ran prisiau teithio uchaf

19.–(1) Ar unrhyw adeg cyn diwedd y cyfnod gofyniad prisiau teithio uchaf, caiff y canlynol wneud cais am adolygu unrhyw ofyniad neu ofynion o ran prisiau teithio uchaf–

- (a) tri neu ragor o weithredwyr cyfranogol perthnasol; neu
- (b) 50% o leiaf o'r gweithredwyr cyfranogol perthnasol;

(pa un bynnag yw'r lleiaf).

(2) Pan wneir cais am adolygiad yn unol â pharagraff (1) rhaid i'r gweithredwr neu weithredwyr sy'n gwneud y cais–

- (a) nodi â pha ofyniad neu ofynion o ran prisiau teithio uchaf y mae'r cais yn ymwneud;
- (b) cyflwyno sylwadau a thystiolaeth i gefnogi'r cais; ac
- (c) cynnig gofynion diwygiedig o ran y prisiau teithio uchaf y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol.

(3) Ac eithrio pan fo'r cais am adolygiad yn gais a eithrir, rhaid i'r awdurdod arweiniol, o fewn cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y ceir cais a gyflwynwyd yn unol â pharagraff (1), ddyroddi hysbysiad adolygu ysgrifenedig i'r gweithredwyr cyfranogol perthnasol.

Adolygu fformiwla ar gyfer amrywio prisiau teithio uchaf, gan yr awdurdod arweiniol

20.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo cynllun yn cynnwys gofynion o ran y prisiau teithio uchaf y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol, a'r cynllun hwnnw yn cynnwys mecanwaith yr amrywio y prisiau teithio uchaf hynny odano, o leiaf bob 12 mis, yn unol â fformiwla.

(2) Os yw'r awdurdod arweiniol o'r farn bod yr amodau ym mharagraff (3) wedi eu bodloni mewn perthynas â rhai neu bob un o'r gofynion o ran y prisiau teithio uchaf y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol, a amrywio yn unol â fformiwla, caiff yr awdurdod arweiniol, ar unrhyw adeg, gychwyn adolygiad o'r fformiwla honno drwy ddyroddi hysbysiad adolygu ysgrifenedig i'r gweithredwyr cyfranogol perthnasol yn unol â pharagraff (4).

(3) Yr amodau yw–

- (a) er y dyddiad perthnasol, bod newid wedi digwydd yn amodau'r farchnad sy'n effeithio'n sylweddol ar allu gweithredwyr cyfranogol perthnasol, drwy weithredu mewn modd cymwys ac effeithlon, i sicrhau cyfradd

Request for review of requirements as to maximum fares by operator

19.–(1) At any time prior to the end of the maximum fares requirement period a review of any requirement or requirements as to maximum fares may be requested by–

- (a) three or more relevant participating operators; or
- (b) at least 50% of relevant participating operators;

(whichever is the lesser).

(2) Where a review is requested in accordance with paragraph (1) the operator or operators making the request must–

- (a) specify to which requirement or requirements as to maximum fares the request relates;
- (b) submit representations and evidence in support of the request; and
- (c) propose revised requirements as to the maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions.

(3) Except where the request for a review is an excepted request the lead authority must, within a period of 28 days beginning with the day on which a request submitted in accordance with paragraph (1) is received, issue a written review notice to relevant participating operators.

Review of formula for varying maximum fares by lead authority

20.–(1) This regulation applies where a scheme includes requirements as to the maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions, and that scheme includes a mechanism under which those maximum fares are varied at least every 12 months in accordance with a formula.

(2) If the lead authority considers that the conditions in paragraph (3) are met in relation to any or all of the requirements as to maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of a particular description, which are varied in accordance with a formula the lead authority may, at any time, start a review of that formula by issuing a written review notice to relevant participating operators in accordance with paragraph (4).

(3) The conditions are that–

- (a) there has, since the relevant date, been a change in market conditions which materially affects the ability of relevant participating operators, acting in a competent and efficient manner, to secure an appropriate rate of return

enillion briodol am barhau i weithredu gwasanaethau presennol yn unol â'r gofynion o ran prisiau teithio uchaf a bennir yn y cynllun os amrywir y prisiau teithio yn unol â'r fformiwla; neu

- (b) nad yw effaith y fformiwla bellach yn gyson â pholisïau trafndiaeth leol yr awdurdod arweiniol, neu'r awdurdod arall neu unrhyw un o'r awdurdodau eraill (yn ôl fel y digwydd), y gwnaed y cynllun ganddynt.

(4) Rhaid i'r hysbysiad adolygu gynnig—

- (a) bod y gofynion o ran y prisiau teithio uchaf y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol, a gynhwysir yn y cynllun neu mewn unrhyw ran o'r cynllun, yn peidio â chael effaith;
- (b) un neu ragor o addasiadau i'r fformiwla y cyfeirir at ym mharagraff (1); neu
- (c) disodli'r fformiwla gan brisiau teithio uchaf penodedig y caniateir eu codi am deithiau penodol neu am deithiau o ddisgrifiadau penodol.

Cais gan weithredwyr am adolygu fformiwla ar gyfer amrywio prisiau teithio uchaf

21.—(1) Ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod pan fo fformiwla fel a ddisgrifir yn rheoliad 20(1) yn gymwys, caiff y canlynol wneud cais am adolygu'r fformiwla—

- (a) tri neu ragor o weithredwyr cyfranogol perthnasol; neu
- (b) 50% o leiaf o'r gweithredwyr cyfranogol perthnasol;

(pa un bynnag yw'r lleiaf).

(2) Pan wneir cais am adolygiad o'r fformiwla yn unol â pharagraff (1) rhaid i'r gweithredwr neu weithredwyr sy'n gwneud y cais—

- (a) nodi â pha ran o'r fformiwla y mae'r cais yn ymwneud;
- (b) cyflwyno sylwadau a thystiolaeth i gefnogi'r cais; ac
- (c) cynnig fformiwla ddiwygiedig ar gyfer amrywio'r prisiau teithio uchaf.

(3) Ac eithrio pan fo paragraff (4) yn gymwys rhaid i'r awdurdod arweiniol o fewn cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod pan geir y cais a gyflwynwyd yn unol â pharagraff (1), ddyroddi hysbysiad adolygu ysgrifenedig i'r gweithredwyr cyfranogol perthnasol.

(4) Nid yw'r ddyletswydd ym mharagraff (3) yn gymwys os yw'r cais a gyflwynir yn unol â pharagraff (1)—

- (a) wedi ei gael o fewn llai na 12 mis ar ôl y dyddiad perthnasol; a

from continuing to operate existing services in accordance with the requirements as to maximum fares specified in the scheme if the fares are varied in accordance with the formula; or

- (b) the effect of the formula is no longer consistent with the local transport policies of the lead authority or of the other authority or of any of the other authorities (as the case may be) by whom the scheme is made.

(4) The review notice must propose—

- (a) that the requirements as to the maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions, contained in the scheme, or any part of the scheme, should cease to have effect;
- (b) one or more revisions to the formula referred to in paragraph (1); or
- (c) replacing the formula with specified maximum fares that may be charged for particular journeys, or for journeys of particular descriptions.

Request for review of formula varying maximum fares by operators

21.—(1) At any time during a period in which a formula described in regulation 20(1) applies a review of the formula may be requested by—

- (a) three or more relevant participating operators; or
- (b) at least 50% of relevant participating operators;

(whichever is the lesser).

(2) Where a review of the formula is requested in accordance with paragraph (1), the operator or operators making that request must—

- (a) specify to which part of the formula the request relates;
- (b) submit representations and evidence in support of the request; and
- (c) propose a revised formula for the variation of maximum fares.

(3) Except where paragraph (4) applies the lead authority must, within a period of 28 days beginning with the day on which the request submitted in accordance with paragraph (1) is received, issue a written review notice to relevant participating operators.

(4) The obligation in paragraph (3) does not apply where the request submitted in accordance with paragraph (1)—

- (a) is received less than 12 months after the relevant date; and

(b) yn gais a eithrir.

Adolygu gofynion o ran amlderau ac amseriadau, gan yr awdurdod arweiniol

22.–(1) Pan fo cynllun a wneir gan awdurdod neu awdurdodau yn pennu safon gwasanaethau sy'n cynnwys gofynion o ran amlder neu amseriad y gwasanaethau, caiff yr awdurdod arweiniol, os yw o'r farn bod y naill neu'r llall neu'r ddau o'r amodau ym mharagraff (2) wedi eu bodloni mewn perthynas â rhai neu bob un o'r gofynion hynny, gychwyn adolygiad o'r gofynion hynny drwy ddyroddi hysbysiad adolygu ysgrifenedig i'r gweithredwyr cyfranogol perthnasol.

(2) Yr amodau yw–

- (a) er y dyddiad perthnasol, bod newid wedi digwydd yn amodau'r farchnad sy'n effeithio'n sylweddol ar allu gweithredwyr cyfranogol perthnasol, drwy weithredu mewn modd cymwys ac effeithlon, i sicrhau cyfradd enillion briodol am barhau i weithredu gwasanaethau presennol yn unol â'r gofynion o ran amlder neu amseriad a bennir yn y cynllun; neu
- (b) nad yw'r gofynion presennol bellach yn gyson â pholisïau trafndiaeth leol yr awdurdod arweiniol, neu'r awdurdod arall neu unrhyw un o'r awdurdodau eraill (yn ôl fel y digwydd), y gwnaed y cynllun ganddynt.

(3) Rhaid i'r hysbysiad adolygu gynnig naill ai–

- (a) bod y gofynion o ran amlder neu amseriad gwasanaethau, a gynhwysir yn y cynllun neu mewn unrhyw ran o'r cynllun, yn peidio â chael effaith; neu
- (b) y dylid diwygio'r gofynion hynny.

Cais gan weithredwr am adolygu gofynion o ran amlderau ac amseriadau

23.–(1) Ar unrhyw adeg, caiff y canlynol wneud cais am adolygu unrhyw ofyniad neu ofynion o ran amlder neu amseriad gwasanaethau–

- (a) tri neu ragor o weithredwyr cyfranogol perthnasol; neu
- (b) 50% o leiaf o'r gweithredwyr cyfranogol perthnasol;

(pa un bynnag yw'r lleiaf).

(2) Pan wneir cais am adolygiad yn unol â pharagraff (1) rhaid i'r gweithredwr neu weithredwyr sy'n gwneud y cais–

- (a) nodi â pha ofyniad neu ofynion o ran amlder neu amseriad gwasanaethau y mae'r cais yn ymwneud;
- (b) cyflwyno sylwadau a thystiolaeth i gefnogi'r cais; ac

(b) is an excepted request.

Review of requirements as to frequencies or timings by lead authority

22.–(1) Where an authority or authorities make a scheme which specifies a standard of services which includes requirements as to the frequency or timing of services the lead authority may, if it considers that either or both of the conditions in paragraph (2) are met in relation to any or all of those requirements, start a review of those requirements by issuing a written review notice to relevant participating operators.

(2) The conditions are that–

- (a) there has, since the relevant date, been a change in market conditions which materially affects the ability of relevant participating operators, acting in a competent and efficient manner, to secure an appropriate rate of return from continuing to operate existing services in accordance with the requirements as to the frequency or timing of services specified in the scheme; or
- (b) the existing requirements are no longer consistent with the local transport policies of the lead authority or of the other authority or of any of the other authorities (as the case may be) by whom the scheme is made.

(3) The review notice must propose either–

- (a) that the requirements as to the frequency or timing of services contained in the scheme, or any part of the scheme, should cease to have effect; or
- (b) that those requirements should be revised.

Request for review of requirements as to frequencies and timings by operator

23.–(1) At any time a review of any requirement or requirements as to the frequency or timing of services may be requested by–

- (a) three or more relevant participating operators; or
- (b) at least 50% of relevant participating operators;

(whichever is the lesser).

(2) Where a review is requested in accordance with paragraph (1) the operator or operators making that request must–

- (a) specify to which requirement or requirements as to the frequency or timing of services the request relates;
- (b) submit representations and evidence in support of the request; and

- (c) cynnig gofynion diwygiedig o ran amlderau ac amseriadau.

(3) Ac eithrio pan fo paragraff (4) yn gymwys rhaid i'r awdurdod arweiniol o fewn cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod pan geir y cais a gyflwynwyd yn unol â pharagraff (1), ddyroddi hysbysiad adolygu ysgrifenedig i'r gweithredwyr cyfranogol perthnasol.

(4) Nid yw'r ddyletswydd ym mharagraff (3) yn gymwys os yw'r cais a gyflwynir yn unol â pharagraff (1)–

- (a) wedi ei gael o fewn llai na 12 mis ar ôl y dyddiad perthnasol; a
(b) yn gais a eithrir.

Gweithdrefn ar gyfer adolygiadau

24.–(1) Rhaid i hysbysiad adolygu bennu'r dyddiad olaf ar gyfer cael sylwadau gan weithredwyr cyfranogol perthnasol, yn ymateb i'r hysbysiad hwnnw, a rhaid i'r dyddiad hwnnw fod–

- (a) ddim llai na 28 diwrnod; a
(b) ddim mwy na 42 diwrnod;

ar ôl y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad adolygu.

(2) Rhaid i'r awdurdod arweiniol, o fewn cyfnod o 35 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod a bennir yn yr hysbysiad adolygu yn unol â pharagraff (1), benderfynu a ddylai'r gofynion o ran amlderau, amseriadau neu brisiau teithio uchaf neu, yn ôl fel y digwydd, y fformiwla a ddefnyddir i amrywio prisiau teithio uchaf–

- (a) barhau i gael effaith tan yr adolygiad nesaf,
(b) peidio â chael effaith, neu
(c) gael eu diwygio.

(3) Rhaid i'r awdurdod arweiniol, unwaith y gwneir penderfyniad yn rhinwedd paragraff (2), ddyroddi hysbysiad ysgrifenedig i'r holl weithredwyr cyfranogol perthnasol.

(4) Caiff yr awdurdod arweiniol, gyda chaniatâd ysgrifenedig yr holl weithredwyr cyfranogol perthnasol, estyn y cyfnod a bennir ym mharagraff (2).

(5) Os y penderfyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yw y dylai'r gofynion o ran amlderau, amseriadau neu brisiau teithio uchaf, neu'r fformiwla a ddefnyddir i amrywio prisiau teithio uchaf, gael eu diwygio, rhaid i'r hysbysiad a ddyroddir o dan baragraff (3)–

- (a) nodi manylion y diwygiadau arfaethedig; a
(b) yn ddarostyngedig i baragraff (6), pennu'r amserlen ar gyfer gweithrediad arfaethedig y diwygiadau.

(6) Rhaid i'r amserlen a bennir yn unol â pharagraff (5)(b)–

- (c) propose revised requirements as to frequencies and timings.

(3) Except where paragraph (4) applies the lead authority must, within a period of 28 days beginning with the day on which the request submitted in accordance with paragraph (1) is received, issue a written review notice to relevant participating operators.

(4) The obligation in paragraph (3) does not apply where the request submitted in accordance with paragraph (1)–

- (a) is received less than 12 months after the relevant date; and
(b) is an excepted request.

Procedure for reviews

24.–(1) A review notice must specify the last date for the receipt of representations from relevant participating operators in response to that notice, and that date must be–

- (a) not less than 28 days; and
(b) not more than 42 days;

after the date on which the review notice is issued.

(2) The lead authority must, within a period of 35 days beginning with the date specified in the review notice in accordance with paragraph (1), decide whether the requirements as to frequencies, timings or maximum fares or, as the case may be, the formula used to vary maximum fares, should–

- (a) continue to have effect until the next review,
(b) cease to have effect, or
(c) be revised.

(3) The lead authority must, once a decision is made by virtue of paragraph (2), issue a written notice to all relevant participating operators.

(4) The lead authority may, with the written consent of all of the relevant participating operators, extend the period specified in paragraph (2).

(5) Where the decision referred to in paragraph (2) is that the requirements as to frequencies, timings or maximum fares, or the formula used to vary maximum fares, should be revised, the notice issued under paragraph (3) must–

- (a) set out the details of the proposed revisions; and
(b) subject to paragraph (6), set out the timetable for the proposed implementation of the revisions.

(6) The timetable specified in accordance with paragraph (5)(b) must–

- (a) ddarparu ar gyfer rhoi effaith i unrhyw ddiwygiadau yn y gofynion o ran prisiau teithio uchaf, neu'r fformiwla a ddefnyddir i amrywio prisiau teithio uchaf, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cwblhau'r adolygiad;
 - (b) darparu ar gyfer rhoi effaith i unrhyw ddiwygiadau yn y gofynion o ran amlderau neu amseriadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cwblhau'r adolygiad, gan gymryd i ystyriaeth yr angen i weithredwyr gofrestru gwasanaeth lleol newydd neu amrywio neu ddiddymu cofrestriad gwasanaeth lleol presennol, fel y bo'n briodol, yn unol ag adran 6 o Ddeddf 1985; ac
 - (c) pan fo'r awdurdod arweiniol yn ymwybodol bod gweithredwr cyfranogol perthnasol yn barti mewn cytundeb partneriaeth gwirfoddol yn unol â'r diffiniad o "voluntary partnership agreement" yn adran 153(2) o'r Ddeddf, neu unrhyw gytundeb arall gyda gweithredwyr gwasanaethau lleol, cymryd i ystyriaeth unrhyw amodau y gallai'r cytundeb hwnnw eu cynnwys, sy'n cyfyngu cyflawni newidiadau yn y gofynion o ran amlderau, amseriadau neu brisiau teithio uchaf i ddyddiadau neu amseroedd penodol yn ystod y flwyddyn.
- (a) provide for any revision of requirements as to maximum fares, or the formula used to vary maximum fares, to take effect as soon as reasonably practicable after the review is completed;
 - (b) provide for any revision of requirements as to frequencies or timings to take effect as soon as reasonably practicable after the review is completed, taking into account the need for operators, as appropriate, to register a new local service, or vary or cancel the registration of an existing local service, in accordance with section 6 of the 1985 Act; and
 - (c) take into account, where the lead authority is aware that a relevant participating operator is party to a voluntary partnership agreement, as defined in section 153(2) of the Act, or any other agreement with operators of local services, any conditions which that agreement might contain restricting the implementation of changes to requirements as to frequencies, timings or maximum fares to particular dates or times in the year.

Gwrthwynebu canlyniad adolygiad

25.—(1) Caiff gofynion diwygiedig o ran amlderau, amseriadau neu brisiau teithio uchaf (gan gynnwys unrhyw ddiwygiad mewn fformiwla fel a ddisgrifir yn rheoliad 20(1)) ddod i rym, yn unig, os nad oes gwrthwynebiadau derbyniadwy i'r gofynion diwygiedig gan weithredwyr cyfranogol perthnasol.

(2) Os yw gweithredwr cyfranogol perthnasol, ar ôl cael yr hysbysiad a ddisgrifir yn rheoliad 24(3), yn dymuno cyflwyno gwrthwynebiad i'r cyfan neu unrhyw ran o ganlyniad yr adolygiad, mae'r gweithdrefnau yn rheoliadau 8 i 15 yn gymwys fel pe bai'r cyfeiriad at hysbysiad a roddir o dan adran 115(1) o'r Ddeddf yn gyfeiriad at hysbysiad a roddir o dan rheoliad 24(3).

Objections to the outcome of a review

25.—(1) Revised requirements as to frequencies, timings or maximum fares (including any revision to a formula described in regulation 20(1)) may come into effect only if there are no admissible objections to the revised requirements from relevant participating operators.

(2) Where, following receipt of the notice described in regulation 24(3), a relevant participating operator wishes to submit an objection to the whole or any part of the outcome of the review, the procedures in regulations 8 to 15 apply as if the reference to a notice given under section 115(1) of the Act was a reference to a notice given under regulation 24(3).

Ieuan Wyn Jones

Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weiniogion Cymru

Minister for the Economy and Transport, one of the Welsh Ministers

14 Rhagfyr 2009

14 December 2009

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2009 Rhif 3293 (Cy.290)

**TRAFNIDIAETH
GYHOEDDUS I DEITHWYR,
CYMRU**

**Rheoliadau Cynlluniau
Partneriaethau Ansawdd (Cymru)
2009**

©© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 No. 3293 (W.290)

**PUBLIC PASSENGER
TRANSPORT,
WALES**

**The Quality Partnership Schemes
(Wales) Regulations
2009**

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.